WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

23 Ebrill 2009
www.wao.gov.uk

# Gofal Heb ei Drefnu – Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai



Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Tracey Davies, Martin Gibson, Gill Lewis, Stephen Lisle, Carol Moseley a Rob Powell.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwbl annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ef sy'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac sy'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn cynnal arolygiadau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gweler y wefan http://www.wao.gov.uk
© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2009.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis 23 Ebrill 2009



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb** | **8** |
| | Argymhellion | 17 |
| **1** | **Mae'r broses o drosglwyddo cleifion o griwiau ambiwlans i adrannau achosion brys ysbytai yn rhy hir yn aml ond nid yw maint gwirioneddol y broblem yn glir** | **21** |
| | Mae'r broses o drosglwyddo cleifion yn rhy hir yn aml a chaiff effaith niweidiol ar ddinasyddion a'r GIG ehangach yng Nghymru | 21 |
| | Nid yw'r union raddau y mae cleifion yn profi oedi yn ystod y broses drosglwyddo yn glir | 31 |
| **2** | **Er bod y targed newydd wedi codi ymwybyddiaeth o achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion, mae angen i ymddiriedolaethau acíwt a'r ymddiriedolaeth ambiwlans gydweithio'n agosach i ddatrys y problemau systemataidd sy'n arwain at yr oedi hwn** | **37** |
| | Hyd yn hyn nid yw sefydliadau'r GIG wedi cydweithredu'n effeithiol ymhob ardal i sicrhau bod yr arweinyddiaeth a'r weledigaeth ofynnol yn bodoli i ddileu amseroedd trosglwyddo gormodol | 38 |
| | Ymddengys fod staff yn gwbl ymrwymedig i wella'r broses o drosglwyddo cleifion ond mae'n rhaid i gyrff y GIG ennyn mwy o ymrwymiad i gofnodi data ac atal achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion rhag dod yn rhan dderbyniol o'r diwylliant gwaith | 39 |
| | Mae proses wael o ddarparu adnoddau mewn ysbytai sy'n ateb y galw pan fydd ar ei fwyaf yn ffactor pwysig wrth ystyried amseroedd trosglwyddo gormodol | 40 |
| | Mae'r prosesau sy'n nodi sut y dylid trosglwyddo cleifion yn amrywio'n fawr ledled Cymru a phrin yw'r achosion o rannu gwersi neu arferion arloesol | 43 |

Atodiadau 48

Atodiad 1 - Methodoleg 48

Atodiad 2 - Rhestr Wirio Trosglwyddo Cleifion 50

Atodiad 3 - Data lefel Ymddiriedolaeth 55

Atodiad 4 - Data ar weithgarwch a pherfformiad o fewn ardaloedd awdurdod unedol/bwrdd iechyd lleol 75

Atodiad 5 - Cyfres o adroddiadau a gaiff eu llunio gennym ar y system gofal heb ei drefnu 110



*Mae criwiau ambiwlans yn aml yn wynebu oedi gormodol mewn adrannau achosion brys wrth aros i drosglwyddo cleifion i staff ysbyty, gan beryglu gallu'r ymddiriedolaeth ambiwlans i ymateb i achosion brys eraill.*




*Wynebodd chwe ambiwlans ac un Cerbyd Ymateb Cyflym achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn ystod un o'n hymweliadau ag Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Tachwedd 2008.*







*Mae'n ofynnol i staff fesur amserau trosglwyddo cleifion gan ddefnyssio terfynellau data gyda thechnoleg sgrîn gyffwrdd. Ond yn ystod ein gwaith maes, nid oedd y terfynellau data yn gweithio'n aml sydd wedi cyfrannu at y diffyg eglurder o ran pa mor hir y mae'r broses drosglwyddo yn ei chymryd.*

# Crynodeb

1 Mae gofal heb ei drefnu yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw ofal iechyd neu ofal cymdeithasol nas cynlluniwyd ac sydd ar fyrder. Mae'n amrywio o driniaeth frys mewn ysbyty i bobl y mae angen help arnynt ar fyrder i ofalu amdanynt eu hunain gartref. Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae ffonio 999 mewn argyfwng, ffonio llinell gymorth Galw Iechyd Cymru neu drefnu apwyntiad ar fyrder gyda meddyg teulu. Dengys Ffigur 1 y prif wasanaethau sy'n darparu gofal heb ei drefnu.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal astudiaeth genedlaethol o effeithiolrwydd gwasanaethau gofal heb ei drefnu yng Nghymru, sy'n adeiladu ar ein tri adroddiad ar wasanaethau ambiwlans yng Nghymru[1 2 3]. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y materion o safbwynt y dinesydd neu'r defnyddiwr gwasanaeth. Rydym yn bwriadu ystyried gofal iechyd a gofal cymdeithasol brys ac ar fyrder a ddarperir y tu allan i oriau gwaith arferol ac o fewn oriau gwaith arferol. Mae Atodiad 5 yn rhestru'r gyfres o adroddiadau y bwriadwn eu llunio ar agweddau penodol ar y system gofal heb ei drefnu.

3 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf yn ein cyfres o adroddiadau ac mae'n canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng adrannau achosion brys ysbytai (a elwir weithiau yn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau brys) ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr ymddiriedolaeth ambiwlans). Bu problemau hirsefydlog wrth y rhyngwyneb rhwng adrannau achosion brys ysbytai a'r ymddiriedolaeth ambiwlans sydd wedi golygu bod yn rhaid i ambiwlansys aros mewn rhes y tu allan i ysbytai yn aml. Caiff hyn effaith ar gleifion sy'n profi gormod o oedi wrth gael eu trosglwyddo i ofal staff ysbyty. Gelwir y broses hon o drosglwyddo gofal yn broses trosglwyddo cleifion. Gelwir yr amser mae'n ei gymryd i ambiwlans fod yn barod i ateb yr alwad nesaf, sy'n cynnwys trosglwyddo'r claf a pharatoi'r cerbyd, yn amser 'gweithredu' (gweler Blwch 1). Noda Ffigur 2 sut y caiff yr amseroedd trosglwyddo a gweithredu eu mesur.

### Blwch 1 - Diffiniadau o amseroedd trosglwyddo cleifion a gweithredu ambiwlansys

**Amser trosglwyddo cleifion**
Mae'r amser a gymerir i drosglwyddo cleifion yn cwmpasu'r amser mae'n ei gymryd o'r adeg y bydd y criw ambiwlans, ar ôl cyrraedd yr ysbyty, yn hysbysu staff yr adran achosion brys bod ganddynt glaf sydd angen sylw, i'r adeg y trosglwyddir gofal y claf i staff yr ysbyty yn ffurfiol, gan felly ryddhau'r criw ambiwlans o'u cyfrifoldebau dros y claf unigol hwnnw.

**Amser gweithredu ambiwlansys**
Mae amser gweithredu ambiwlans yn dechrau pan fydd yr ambiwlans yn cyrraedd yr ysbyty ac nid yw'n gorffen tan i'r criw ambiwlans hysbysu'r ganolfan reoli eu bod yn barod i ymateb i achos brys arall. Felly mae'r amser gweithredu yn cynnwys yr amser mae'n ei gymryd i'r criw baratoi eu hunain a'u hambiwlans ar gyfer galwad arall, ar ôl gorffen y broses o drosglwyddo'r claf.
Ystyrir bod y broses o fesur amseroedd trosglwyddo cleifion a'u gwelliant yn ddangosydd mwy uniongyrchol o ofal, diogelwch a phrofiad cleifion nag amseroedd gweithredu ambiwlansys, a ddylai helpu i nodi'r hyn sy'n arwain at golli oriau uned ambiwlans yn gliriach.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*


1 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru, Rhagfyr 2006

2 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad dilynol - Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru, Mehefin 2008

3 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2009




## Ffigur 1 - Mae gofal heb ei drefnu yn derm eang ac yn cynnwys gwaith sawl gwasanaeth




GIC - Galw Iechyd Cymru
GC - Gofal Canolraddol

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Ffigur 2 - Mesur amseroedd trosglwyddo a gweithredu

**Yr Ambiwlans yn Gadael y Digwyddiad**

Yr ystafell reoli yn trosglwyddo'r manylion i'r 'Sgrîn Cyrraedd' yn adran damweiniau ac achosion brys yr ysbyty (mae'r manylion yn cynnwys symptomau'r claf a'r amser y bydd yn cyrraedd yn fras).

Yr ambiwlans yn cyrraedd yr ysbyty. Y claf yn cael ei gymryd o'r cerbyd a'i gludo i'r adran damweiniau ac achosion brys.

Personél yr ambiwlans yn hysbysu'r clinigydd priodol o fewn yr adran h.y. Nyrs Brysbennu. Rhoddir manylion yr ambiwlans ar y Sgrîn Cyrraedd h.y. Rhif pin y staff ac ati.

**Targed 15 munud yn dechrau**

Ar ôl i'r clinigydd priodol o fewn yr adran damweiniau ac achosion brys gyrraedd, personél yr ambiwlans yn trosglwyddo'r claf. Y clinigydd yn rhoi'r manylion ar y sgrin cyrraedd.

Ar ôl cyrraedd y man trosglwyddo, personél yr ambiwlans yn trosglwyddo'r claf i ofal y clinigydd/ ysbyty sydd wedi ei dderbyn. Rhoddir y manylion ar y sgrin cyrraedd ac mae'r clinigydd o fewn yr adran damweiniau ac achosion brys yn llofnodi cofnod gofal cleifion i gadarnhau ei fod wedi'i dderbyn.

Nawr gall personél yr ambiwlans adael.

**Targed 15 munud yn gorffen**

Personél yr ambiwlans yn hysbysu'r ystafell reoli eu bod yn rhydd i adael yr ysbyty ac yn cyfleu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i unrhyw oedi.

**Personél yr ambiwlans yn rhydd i ymateb.**

**Noder**

Mae'r gofnod gofal cleifion yn ddogfen a gyflawnwyd gan griwiau ambiwlans sydd yn darparu cofnod ffurfiol o'r driniaeth a ddarparwyd i gleifion unigol.

*Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Procedure for transferring care of patient at receiving hospital, Ionawr 2008*




4 Yn ogystal â'r effaith ar gleifion, caiff achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion effaith niweidiol ar yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'i pherfformiad o ran amseroedd ymateb, yn ogystal ag ar y GIG ehangach a gwasanaethau brys eraill sydd weithiau yn cludo cleifion i ysbytai pan fydd ambiwlansys yn ei chael yn anodd ymateb i alwadau. Yn ystod yr achosion hyn o oedi, ni all ambiwlansys adael yr ysbyty ac nid ydynt ar gael i ymateb i alwadau brys newydd. O ganlyniad, pennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol darged newydd o 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG drosglwyddo cleifion o ambiwlans achosion brys i adran achosion brys ysbyty o fewn 15 munud[4]. Yn seiliedig ar arfer o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi pennu targed mewnol sef ar ôl trosglwyddo cleifion, dylai criwiau ambiwlans baratoi eu cerbydau a datgan eu bod ar gael i ymateb i achos brys arall o fewn pum munud. Mae hyn yn rhoi targed 'amser gweithredu' o 20 munud i griwiau.

5 Dengys Ffigur 3 y gyfres o weithgareddau sy'n digwydd pan fydd achos brys nodweddiadol. Mae Ffigur 3 yn tynnu sylw at y gweithgareddau a gynhwysir yn nhargedau perfformiad Llywodraeth y Cynulliad a hefyd y rhai y mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi'u pennu'n dargedau perfformiad mewnol. Wrth i'r gweithgareddau fynd rhagddynt, cofnodir manylion pob digwyddiad ar systemau gwybodaeth canolog yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac fe'u dangosir hefyd ar y terfynellau data a geir yn yr ysbyty sy'n disgwyl derbyn y claf (cleifion) dan sylw o dan y penawdau canlynol:

- **a** i ddechrau, pan ymatebir i alwad frys hysbysir yr ysbyty sy'n debygol o dderbyn y claf (cleifion) dan sylw drwy restru manylion y digwyddiad o dan y pennawd 'i'w ddisgwyl';
- **b** os na fydd angen i'r criw ambiwlans gludo'r claf i'r ysbyty bydd y digwyddiad yn diflannu oddi ar y sgrîn;
- **c** os bydd y criw ambiwlans yn penderfynu cludo claf i'r ysbyty, yna bydd statws y digwyddiad yn newid o 'i'w ddisgwyl' i 'ar y ffordd' a rhoddir syniad o'r amser y disgwylir iddynt gyrraedd;
- **ch** pan fydd yr ambiwlans yn cyrraedd yr ysbyty, mae statws y digwyddiad yn newid o 'ar y ffordd' i 'wedi cyrraedd';
- **d** pan drosglwyddir gofal y claf i staff yr ysbyty, mae'r broses o drosglwyddo cleifion wedi'i chwblhau ac nid yw'r digwyddiad yn ymddangos ar y derfynell data mwyach ond cofnodir holl fanylion y digwyddiad ar system wybodaeth electronig yr ymddiriedolaeth ambiwlans.

6 Mae’n ofynnol i staff y GIG fesur amseroedd trosglwyddo cleifion gan ddefnyddio terfynellau data â thechnoleg sgrîn-gyffwrdd. Cafodd y system hon ei gosod ymhob adran achosion brys mewn ysbytai ledled Cymru ym mis Medi 2008 a chafodd y gyfres gyntaf o ddata ei rhyddhau ym mis Rhagfyr 2008. Ymwelodd ein timau gwaith maes â phob un o'r prif adrannau achosion brys mewn ysbytai yng Nghymru i gynnal hapwiriadau o'r broses drosglwyddo a'r broses o weithredu a defnyddio'r dechnoleg sgrîn-gyffwrdd newydd a elwir yn 'derfynellau data' fel arfer. Manylir ar ein methodoleg yn Atodiad 1.

7 Ystyriodd y prosiect hwn a oedd y broses o drosglwyddo cleifion gan griwiau ambiwlans i adrannau achosion brys ysbytai yn cael ei rheoli'n effeithlon tra'n diogelu gofal cleifion. Er y cymerwyd rhai camau cadarnhaol tuag at

4 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Targed 19, Fframwaith Gweithredu Blynyddol, 2008-09 a Tharged 9, Fframwaith Gweithredu Blynyddol, 2009-10

## Ffigur 3 - Ceir amrywiaeth o dargedau perfformiad sy'n ymwneud â throsglwyddo cleifion o griwiau ambiwlans i staff ysbyty

| Targedau Perfformiad Llywodraeth y Cynulliad | Targedau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Gweithgaredd | Statws Terfynell Data |
|---|---|---|---|
| | | Dinesydd yn ffonio Ystafell Reoli | Dim |
| Targed Fframwaith Gweithredu Blynyddol 4 Llywodraeth Cynulliad Cymru: (2008-09) i gyrraedd o fewn 8, 9 a 10 munud | | Cloc ar gyfer ymateb yn dechrau unwaith y bydd yr ystafell reoli wedi cael rhif ffôn ac wedi cadarnhau lleoliad a natur y digwyddiad | Dim |
| | 30 eiliad | Blaenoriaethu galwadau (yn ôl Categorïau A, B neu C) ac anfon ambiwlans(ys)/Cerbyd Ymateb Cyflym (CYC) /Ymatebydd Cyntaf | I'w ddisgwyl |
| | Gweddill y targed ymateb cyntaf | CYC/Ambiwlans yn cyrraedd y digwyddiad ac yn pennu nifer y cleifion y mae angen eu cludo i adran damweiniau ac achosion brys | I'w ddisgwyl |
| | O fewn 14, 18, 21 Munud* | Ambiwlans yn cyrraedd y digwyddiad | I'w ddisgwyl |
| | | Rhyddhau unrhyw ambiwlansys nad oes eu hangen | I'w ddisgwyl |
| | 20 Munud | Ystafell Reoli/Criw yn penderfynu ar yr ysbyty mwyaf priodol i'w ddefnyddio | I'w ddisgwyl |
| | | Criw ambiwlans yn parhau i gasglu data hanfodol ar y claf | Ar y ffordd |
| | | Staff yr adran damweiniau ac achosion brys yn paratoi am yr ambiwlans | Ar y ffordd |
| Amser Gweithredu Ambiwlans: | | Ambiwlans yn cyrraedd yr adran damweiniau ac achosion brys – hysbysu'r Ystafell Reoli | Ar y ffordd |
| Amser Trosglwyddo Cleifion: Targed Fframwaith Gweithredu Blynyddol 19 Llywodraeth Cynulliad Cymru: (2008-09) Trosglwyddo claf o ambiwlans i adran damweiniau ac achosion brys o fewn 15 munud | 15 Munud | Criw ambiwlans yn mynd i mewn i'r adran damweiniau ac achosion brys, yn cofnodi eu bod wedi cyrraedd ar y derfynell data ac yn hysbysu'r adran eu bod yno | Wedi cyrraedd |
| | | Criw ambiwlans yn aros gyda'r claf. Y claf yn aros ar droli Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru tan iddo gael ei drosglwyddo i ofal staff yr adran damweiniau ac achosion brys | Wedi cyrraedd |
| | | Criw ambiwlans yn rhoi manylion ar lafar i staff yr adran damweiniau ac achosion brys ac yn rhoi dalen ysgrifenedig (cofnod gofal cleifion) | Wedi cyrraedd |
| | | Staff yr adran damweiniau ac achosion brys yn cofnodi bod y trosglwyddo wedi'i gwblhau ar y derfynell ddata | Cwblhawyd |
| | 5 Munud | Criw'r ambiwlans yn ailgyflenwi ac yn glanhau'r ambiwlans a'r cyfarpar | Dim |
| | | Criw'r ambiwlans yn hysbysu'r Ystafell Reoli eu bod ar gael i ateb galwad arall | Dim |

*Yn dibynnu ar natur wledig yr ardal ac yn cynnwys yr amser a gymerir i'r ystafell reoli anfon ambiwlans i'r digwyddiad

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*




wella'r broses drosglwyddo, mae cleifion yn profi gormod o oedi yn aml ac nid yw'r data ar amseroedd trosglwyddo yn rhoi darlun cywir o raddau'r broblem. Mae cynnydd pellach yn dibynnu ar sefydliadau'r GIG yn mynd i'r afael â'r broblem sy'n ymwneud â throsglwyddo cleifion yn fwy cadarn yng nghyd-destun gwella system ehangach gofal heb ei drefnu.

## Mae'r broses o drosglwyddo cleifion o griwiau ambiwlans i adrannau achosion brys ysbytai yn rhy hir yn aml ond nid yw maint gwirioneddol y broblem yn glir

8 Yn ystod ein hymweliadau ag adrannau achosion brys gwelwyd achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn aml. Gwelwyd enghreifftiau o'r effaith niweidiol a gaiff hyn ar gleifion a oedd yn aml yn aros am sylw meddygol ar drolïau ambiwlans mewn coridorau ysbyty. Mae i hyn oblygiadau o ran preifatrwydd ac urddas cleifion yn ogystal â chynyddu'r pryder y gallai'r cleifion hyn a'u teuluoedd neu eu gofalwyr fod yn ei deimlo. Mae gweld ambiwlansys yn gorfod aros mewn rhes y tu allan i ysbytai a gofalu am gleifion ar drolïau neu mewn coridorau yn rhoi argraff negyddol iawn o ofal heb ei drefnu yng Nghymru ac mae'n niweidio enw da'r GIG.

9 Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn aml yn cyd-daro ag adegau prysur iawn mewn adrannau achosion brys, ac yn eu gwaethygu. Mae'r oedi hwn yn ychwanegu at y straen a'r ymdeimlad o rwystredigaeth sy'n wynebu staff y GIG sy'n canolbwyntio ar roi'r help sydd ei angen i gleifion, mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl.

10 Yn 2008, dengys ffigurau'r ymddiriedolaeth ambiwlans i'w chriwiau brofi bron i 30,000 awr o oedi o fewn adrannau achosion brys ysbytai y tu hwnt i'r 20 munud y mae'r targed gweithredu yn nodi y dylai fod yn ddigon. Gyda chriwiau ambiwlans yn wynebu oedi mewn adrannau achosion brys, mae llai o griwiau ar gael i ymateb i alwadau brys eraill. Gall hyn olygu ei bod yn cymryd mwy o amser i'r ymddiriedolaeth ambiwlans ymateb i alwadau brys gan aelodau o'r cyhoedd. Felly, mae achosion o oedi o ran amseroedd gweithredu ambiwlansys yn effeithio ar ba mor gyflym y caiff cleifion ofal brys ond hefyd ar allu'r ymddiriedolaeth ambiwlans i gyflawni ei thargedau i ymateb i alwadau brys o fewn terfynau amser clinigol briodol, yn enwedig y targed i ymateb i achosion brys lle mae bywyd yn y fantol (galwadau Categori 'A') o fewn wyth munud.

11 Fodd bynnag, nid yw amseroedd gweithredu yn fesur perffaith a dim ond ymwneud â chofnodion yr ymddiriedolaeth ambiwlans y maent, sy'n tanlinellu pwysigrwydd datblygu mesur cadarn o amseroedd trosglwyddo cleifion. Byddai mesur amseroedd trosglwyddo cleifion mewn ffordd gywir a chyson yn helpu i wahaniaethu rhwng yr amser a gollir yn sgîl problemau sy'n deillio o systemau'r ymddiriedolaeth ambiwlans ei hun a'r rhai a achosir wrth y rhyngwyneb â'r system ehangach ac yn eu meintioli.

12 Nodwyd hefyd fod y ganolfan reoli wedi ei chael yn anodd anfon ambiwlans mewn ymateb i ddigwyddiad o fewn ei tharged o 30 eiliad[5]. Fodd bynnag, pan fydd pwysau aruthrol, er enghraifft ym mis Rhagfyr 2008, mae wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'r amser ymateb wyth munud ar y broses o drefnu ymateb.

5 Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi gosod targed i'w hun i anfon ymateb i alwad 999 o fewn 30 eiliad o gadarnhau y tri darn o wybodaeth gan y galwr - enw'r galwr, lleoliad yr achos a natur yr achos.

13 Gall y gwahaniaeth mawr mewn amseroedd gweithredu gormodol arwain at weld y system ehangach yn cael ei rhwystro pan fydd cynnydd mawr yn y pwysau sy'n deillio o oriau ambiwlans coll. Mae rheoli'r fath wahaniaeth sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn y gellir ei ragweld yn anodd dros ben wrth geisio darparu gwasanaeth ambiwlans ymatebol ac effeithlon. O ganlyniad, yn ystod mis Rhagfyr 2008, bu cwymp mawr iawn ym mherfformiad amseroedd ymateb ambiwlansys a wnaeth waethygu tuedd ar i lawr a oedd yn bodoli eisoes. Er bod yr achosion yn gymhleth ac yn adlewyrchu cynnydd mawr mewn galw drwy'r system, un sgîl-effaith a welwyd oedd cynnydd mawr yn yr amser a gollwyd oherwydd amseroedd gweithredu a oedd yn rhy hir a hefyd broblemau mawr yn anfon ambiwlansys i ddigwyddiadau lle'r oedd y broses honno weithiau'n cymryd mwy na'r wyth munud gofynnol i ymateb.

14 Yn ogystal â'r oedi y mae ambiwlansys yn ei wynebu mewn adrannau achosion brys, gwelsom i nifer gynyddol o gleifion gael eu cludo i'r ysbyty gan yr heddlu neu'r gwasanaethau tân ac achub rhwng mis Rhagfyr 2008 a mis Ionawr 2009. Gwnaeth yr amodau tywydd difrifol estynedig ar yr adeg yma achosi cynydd sylweddol yn y galw am wasanaethau achosion brys ar draws Cymru, ac felly, cyfrannodd at gynnydd yn y niferoedd yn Rhagfyr ac Ionawr. Mae problemau gyda'r system ehangach yn golygu bod swyddogion yr heddlu a'r criwiau tân yn parhau i gludo cleifion i'r ysbyty. Awgryma data a gasglwyd gan yr heddlu a'r gwasanaethau tân yn awgrymu y bu cynnydd mawr mewn digwyddiadau o'r fath rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2008 pan welwyd 30 o ddigwyddiadau'r mis ar gyfartaledd, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent. Mewn rhai achosion, mae'r digwyddiadau hyn yn peryglu bywyd cleifion am nad ydynt yn cael gofal gan griwiau ambiwlans sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, yn niweidio enw da a hygrededd yr ymddiriedolaeth ambiwlans, yn cyfyngu ar allu'r heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub i ymateb i achosion brys eraill, ac yn peryglu swyddogion yr heddlu a diffoddwyr tân yn bersonol ac yn broffesiynol. Yn ôl yr ymddiriedolaeth ambiwlans cafwyd llai o ddigwyddiadau o'r fath ym mis Chwefror a mis Mawrth 2009 yn unol â'r ffaith bod llai o amser yn cael ei golli yn sgîl amseroedd gweithredu hir.

15 Er i'r terfynellau data newydd gael eu cyflwyno, nid yw sefydliadau'r GIG yn glir o hyd ynghylch pa mor hir y mae'r broses o drosglwyddo cleifion yn ei chymryd o fewn adrannau achosion brys ysbytai. Dechreuwyd defnyddio'r terfynellau data ym mis Medi 2008, rhoddwyd y gorau iddynt ym mis Tachwedd am fod problemau technegol, ond yn eu mis gweithredol llawn cyntaf, sef mis Rhagfyr 2008, ni chafodd pedwar allan o bum achos o drosglwyddo cleifion eu cofnodi gan ddefnyddio'r terfynellau hyn. Rhan o'r rheswm dros hyn yw problemau gyda'r system. Er i'r ymddiriedolaeth ambiwlans gynnal sesiynau hyfforddi ymhob ysbyty i egluro rolau a chyfrifoldebau, nodwyd hefyd fod rhai aelodau o staff yn amharod i ddefnyddio'r sgriniau ac roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gofnodi'r wybodaeth hon. Mae hefyd yn adlewyrchu'r problemau mawr iawn drwy'r system gyfan ym mis Rhagfyr 2008. Hyd yn oed pan gaiff yr amseroedd trosglwyddo eu cofnodi, nodwyd bod hyn yn cael ei wneud yn anghywir yn aml.




## Er bod y targed newydd wedi codi ymwybyddiaeth o achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion, mae angen i ymddiriedolaethau acíwt a'r ymddiriedolaeth ambiwlans gydweithio'n agosach i ddatrys y problemau sy'n arwain at yr achosion hyn o oedi

### Hyd yn hyn nid yw sefydliadau'r GIG wedi cydweithredu'n effeithiol i sicrhau bod yr arweinyddiaeth a'r weledigaeth ofynnol yn bodoli i ddileu amseroedd trosglwyddo gormodol

16 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi bod y targedau o ran trin cleifion yn yr adrannau achosion brys a tharged trosglwyddo cleifion yr un mor bwysig i sefydliadau. Er bod y targed trosglwyddo newydd wedi dwyn mwy o sylw i'r broblem o achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion, mae ein ymweliadau hapwiriadau yn awgrymu bod y targedau mynediad wedi ei sefydlu'n gadarnach yn arfer acíwt ymddiriedolaethau'r GIG o gymharu â'r targedau newydd[6].

17 Mae'n beth da bod y targed trosglwyddo yn gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am amseroedd trosglwyddo gormodol gyda'i gilydd a thrwy hyn tynnir sylw at y ffaith bod amseroedd trosglwyddo gormodol yn adlewyrchu problemau systemau cyfan. Serch hynny, nid yw ymddiriedolaethau acíwt na'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn gweithio yn y ffyrdd cywir eto i ddod o hyd i atebion ar y cyd i'r problemau sy'n peri'r oedi hwn. Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithredu'n strategol i weithio tuag at wella systemau cyfan ym maes gofal heb ei drefnu, ac maent yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau gweithredol uniongyrchol sy'n peri oedi wrth drosglwyddo cleifion. Er i'r ymddiriedolaeth ambiwlans wneud cryn ymdrech i gynnwys ymddiriedolaethau acíwt dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid ydynt wedi cytuno ar weithdrefnau ffurfiol yn gyson i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn benodol.

18 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod y broblem hon ac ym mis Ionawr 2009 gofynnodd i bob ymddiriedolaeth acíwt gyflwyno cynlluniau gweithredu i leihau amseroedd trosglwyddo gormodol a gyflwynwyd iddi ar ddiwedd mis Chwefror 2009. Wrth gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2009, cyfeiriodd Prif Weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans at rai datblygiadau addawol yn Ysbyty Brenhinol Gwent a oedd wedi arwain at rai gwelliannau o ran yr amser a gollir gan griwiau ambiwlans. Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad nifer o gamau diweddar pellach a arweiniodd at well safle yn y misoedd diwethaf, yn enwedig lleihad sylweddol mewn oedi gormodol wrth drosglwyddo cleifion a gwelliannau mewn amseroedd ymateb ambiwlansys ar draws Cymru.

### Ymddengys fod staff yn gwbl ymrwymedig i wella'r broses o drosglwyddo cleifion ond mae'n rhaid i gyrff y GIG ennyn mwy o ymrwymiad i gofnodi data ac atal achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion rhag dod yn rhan dderbyniol o'r diwylliant gwaith

19 Drwy gydol ein gwaith maes gwnaeth ymroddiad staff y GIG o ran ceisio lleihau'r effaith ar gleifion sy'n profi oedi wrth gael eu trosglwyddo argraff arnom. Fodd bynnag, gwelsom agweddau llai cadarnhaol tuag at

6 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Fframwaith Gweithredu Blynyddol 2009-10, FfGB 7 a Fframwaith Gweithredu Blynyddol 2008-09, FfGB 2. Ni wnaiff 95 y cant o gleifion newydd (gan gynnwys pediatreg) dreulio mwy na phedair awr mewn prif adran damweiniau ac achosion brys o'r adeg y byddant yn cyrraedd i'r adeg y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau; ac ni wnaiff 99 y cant o gleifion dreulio mwy nag wyth awr i'w derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

gofnodi gwybodaeth am drosglwyddo cleifion. Roedd rhai aelodau o staff o'r farn na ddylent fod yn gyfrifol am gofnodi'r fath wybodaeth ac roedd eraill yn gwrthwynebu'r hyn a oedd yn gyfystyr â monitro eu perfformiad yn ormodol yn eu barn hwy. Mynegodd eraill bryder hefyd ynghylch risgiau rheoli heintiau yn sgîl defnyddio sgrîn-gyffwrdd, yr aeth yr ymddiriedolaeth ambiwlans i'r afael ag ef drwy gaffael sgriniau gradd feddygol fel eu bod yn gwrthsefyll glanhau priodol. Ar y dechrau ni chafodd staff unrhyw wybodaeth am berfformiad ym maes trosglwyddo cleifion o ganlyniad i'r data y gofynnwyd iddynt ei gofnodi. Erbyn hyn mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn monitro cydymffurfiaeth pob aelod o griw â'r gofynion cofnodi. Fodd bynnag, nid yw monitro cydymffurfiaeth yn ddigon. Cafwyd nad yw staff yn gyffredinol wedi'u hargyhoeddi eto o ran manteision y gwaith monitro hwn i gleifion a'r GIG.

20 Er gwaethaf agweddau cadarnhaol staff tuag at yr angen i leihau amseroedd trosglwyddo, os bydd y problemau cyfredol yn parhau i godi mae perygl y bydd yr oedi hwn yn dod yn rhan dderbyniol o waith o fewn adrannau achosion brys ysbytai a gallai'r targed gael fawr ddim effaith ar leihau amseroedd trosglwyddo hir a chanlyniadau hynny i ofal cleifion.

## Mae proses wael o ddarparu adnoddau mewn ysbytai sy'n ateb y galw pan fydd ar ei fwyaf yn ffactor pwysig wrth ystyried amseroedd trosglwyddo gormodol

21 Er nad oedd ein gwaith yn cynnwys dadansoddiad manwl o achosion amseroedd trosglwyddo gormodol, bu modd i ni eu gweld a gofynnwyd i staff leisio eu barn am brif resymau amseroedd trosglwyddo hir. Nodwyd y byddai gwell cynllunio yn ddefnyddiol o ran darparu adnoddau ar gyfer adrannau achosion brys pan fydd y galw ar ei fwyaf.

22 Mae problemau wrth y drws ffrynt yr unedau achosion brys yn adlewyrchu problemau ehangach gyda'r system. Mae gallu'r ysbytai i dderbyn cleifion mewn modd effeithiol wrth y drws ffrynt yn adlewyrchu materion galw, llif cleifion, patrymau mynediad gwasanaethau a rheoli gwelyau ar draws yr holl system. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd gan staff dros achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion oedd y ffaith nad oedd gwelyau ar gael mewn adrannau achosion brys am fod pob gwely ar gyfer cleifion mewnol yn llawn. Tynnodd ein hadroddiadau ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal sylw at yr effaith niweidiol fawr y gall achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai ei chael ar gleifion unigol a gallu ymddiriedolaethau acíwt i reoli eu hadnoddau'n effeithiol[7]. Dangosodd ein hymweliadau diweddar ag adrannau achosion brys ysbytai fod problemau wrth reoli llif cleifion a chymhwyster gwelyau, gan gynnwys 'drws cefn' yr ysbyty drwy sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o welyau ysbytai yn effeithlon, yn cael effaith fawr ar y 'drws ffrynt' fel bod cleifion yn cael eu trin yn gyflym yn yr ysbyty os bydd eu cyflwr yn gofyn am hynny. A dywedwyd wrthym mewn rhai ysbytai y gallai timau arbenigol cleifion mewnol ddarparu gwell cymorth i leddfu'r pwysau ar yr adran achosion brys.

23 Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn arwydd o broblemau wrth ddyrannu adnoddau i fodloni galw. Fodd bynnag, nid yw sefydliadau'r GIG yn defnyddio data trosglwyddo yn effeithiol i asesu cydbwysedd adnoddau a galw o fewn eu gwasanaethau. Lle y nodir nad yw adnoddau a galw yn cyfateb, efallai nad cynyddu'r adnoddau sydd ar gael yw'r ateb, oherwydd nid yw ychwanegu mwy o ambiwlansys i'r rhes yn debygol o wella perfformiad amseroedd ymateb ambiwlansys. Gyda gwaith yn mynd rhagddo ledled Cymru i wella'r model o

7 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mynd i'r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn y system gyfan; Adroddiad trosolwg yn seiliedig ar waith yng nghymunedau iechyd a gofal cymdeithasol Caerdydd a'r Fro, Gwent a Sir Gaerfyrddin, Tachwedd 2007




wasanaethau gofal heb ei drefnu a ddarperir ymhob cymuned iechyd a gofal cymdeithasol, bydd angen i sefydliadau'r GIG ystyried yr effeithiau posibl ar alw yn sgîl y newidiadau hyn drwy'r system gyfan o ofal heb ei drefnu yn hytrach na gwneud penderfyniadau annibynnol ar adnoddau gwasanaethau ambiwlans neu adrannau achosion brys.

### Mae'r prosesau sy'n nodi sut y dylid trosglwyddo cleifion yn amrywio'n fawr ledled Cymru a phrin yw'r achosion o rannu gwersi neu arferion arloesol

**24** Gwelwyd sawl agwedd gadarnhaol ar y broses o drosglwyddo cleifion mewn adrannau achosion brys. Rydym wedi defnyddio'r agweddau cadarnhaol hyn i lunio rhestr wirio (gweler Atodiad 2) y gall ymddiriedolaethau acíwt a'r ymddiriedolaeth ambiwlans ei defnyddio ymhob adran achosion brys i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses drosglwyddo.

**25** Er bod enghreifftiau o agweddau cadarnhaol ar y broses drosglwyddo ledled Cymru mae hefyd yn wir y gellid gwella'r broses ymhob adran achosion brys. Nodwyd hefyd nad yw sefydliadau'r GIG yn dysgu'n effeithiol wrth ei gilydd. Ein canfyddiadau penodol ar y prosesau trosglwyddo yw:

- **a** byddai proses gyfathrebu effeithiol rhwng ysbytai a'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn helpu adrannau achosion brys i fod yn fwy parod pan fydd y claf yn cyrraedd;
- **b** byddai safoni'r prosesau trosglwyddo mewn gwahanol ymddiriedolaethau acíwt yn atal y problemau sy'n codi weithiau pan fydd criwiau ambiwlans yn cyrraedd ysbytai anghyfarwydd;
- **c** ceir costau cyfle o ran gallu ac adnoddau rheoli'r ymddiriedolaeth ambiwlans drwy'r defnydd eang o swyddogion ambiwlans ychwanegol i fod yn gyfrifol am ofal claf o fewn adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai er mwyn rhyddhau criw ambiwlans pan fydd pwysau penodol o ran trosglwyddo cleifion;
- **ch** ceir oedi wrth ailgyflenwi a pharatoi ambiwlansys yn sgîl problemau'n ymwneud ag argaeledd rhai eitemau mewn ysbytai ac maent yn cyfrannu at yr oedi wrth ddychwelyd criwiau ambiwlans i'r ffordd ar ôl trosglwyddo gofal eu claf.

## Argymhellion

### Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb data ar amseroedd trosglwyddo

**1** Mae'r ffaith nad yw terfynellau data yn gweithio'n aml yn atal y broses o gofnodi data rhag dod yn rhan arferol o weithio mewn adrannau achosion brys. A phan na fyddant yn gweithio am amser hir, bydd sgrîn-arbedwr yn ymddangos ar y derfynell data, gan roi'r argraff i rai aelodau o staff nad yw'r sgrîn yn gweithio. **Dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans, ar fyrder, weithio gyda'r ymddiriedolaethau acíwt a darparwr y system er mwyn:**

- **a** **mynd i'r afael â'r problemau technegol sy'n atal y sgriniau rhag gweithio er mwyn lleihau'r amser nad ydynt yn gweithio mewn modd mesuradwy a chynyddu'r graddau y caiff data trosglwyddo ei gofnodi;**
- **b** **dadactifadu'r sgrîn-arbedwr fel y gall defnyddwyr weld bod y terfynellau data yn gweithio'n gywir;**
- **c** **sicrhau bod y garden gynghori safonol wrth bob sgrîn sy'n tanlinellu sut y dylai defnyddwyr ailddechrau neu adfywio'r derfynell data pan fydd y sgrîn yn dangos neges gwall pan nad oes angen ateb TG arbenigol;**

ch **sicrhau bod systemau gwybodaeth yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn gallu gwahaniaethu rhwng trosglwyddo gofal cleifion o griwiau ambiwlans i staff eraill yr ymddiriedolaeth ambiwlans a leolir mewn adrannau achosion brys i ymdrin â'r broses o drosglwyddo cleifion a'r amser a gymerir i gwblhau'r broses uniongyrchol o drosglwyddo gofal cleifion o griwiau i staff ysbyty;**

d **sefydlu systemau cadarn i gynnal hapwiriadau cyfnodol, ar y cyd â chydweithwyr mewn adrannau achosion brys, er mwyn dilysu cywirdeb a chyflawnrwydd y data trosglwyddo.**

2 Mae rhai terfynellau data wedi'u lleoli mewn mannau amhriodol o fewn adrannau achosion brys. Mae rhai sgriniau mewn mannau sy'n dod yn boblog iawn ar adegau prysur ac mae eraill wedi'u lleoli mewn mannau mwy anghysbell nad yw staff sy'n gyfrifol am drosglwyddo cleifion yn ymweld â hwy'n awtomatig. **Dylai ymddiriedolaethau acíwt adolygu lleoliadau terfynellau data sy'n bodoli eisoes mewn ymgynghoriad â staff ambiwlans a staff nyrsio. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid lleoli terfynell data o fewn yr adran, yn agos at y fynedfa a ddefnyddir gan griwiau ambiwlans, er mwyn atgoffa staff bod yn rhaid iddynt gofnodi'r wybodaeth am amseroedd trosglwyddo.**

## Gwella'r ffordd y mae staff y GIG yn defnyddio'r terfynellau data

3 Mae agweddau staff tuag at gofnodi gwybodaeth am amseroedd trosglwyddo yn rhwystr mawr i'r broses o fonitro a rheoli'r broses drosglwyddo yn gywir. Mae rhai staff o'r farn eu bod yn cael eu monitro'n ormodol ac nid yw eraill yn cytuno â'r egwyddorion sy'n sail i gofnodi gwybodaeth drosglwyddo nac yn eu deall, gan adlewyrchu'r angen i gydnabod elfennau dynol a thechnolegol cyflwyno system newydd. Gallai'r safbwyntiau hyn fod wedi cael eu gwaethygu gan ddiffyg gwybodaeth a roddwyd gan sefydliadau'r GIG i'w staff am ddiben terfynellau data. **Er mwyn ennyn mwy o ymrwymiad i gofnodi data cywir ar amseroedd trosglwyddo:**

a **dylai sefydliadau'r GIG hysbysu eu staff yn gliriach am y rhesymau dros gofnodi gwybodaeth am amseroedd trosglwyddo a'r rhan bwysig y mae'r wybodaeth hon yn ei chwarae wrth feintioli graddau'r problemau sy'n wynebu'r system gofal heb ei drefnu a gwella'r broses o gynllunio gwasanaethau;**

b **dylai ymddiriedolaethau acíwt arddangos gwybodaeth am berfformiad amseroedd trosglwyddo mewn adrannau achosion brys fel bod y staff yn fwy ymwybodol o effeithiau achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion ac yn gallu gweld gwelliannau i amseroedd trosglwyddo o ganlyniad i weithredoedd lleol;**

c **dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans roi data i'w staff sy'n ymwneud ag amseroedd trosglwyddo sy'n benodol i'r cleifion a gludwyd i'r ysbyty ganddi.**

4 Er gwaethaf rhaglen hyfforddi a gyflwynwyd ledled Cymru, cafwyd nad yw rhai aelodau o staff yn deall pryd yn union y dylent ddefnyddio'r sgriniau o hyd. Ceir ansicrwydd hefyd ynghylch rhannu cyfrifoldebau am gofnodi'r wybodaeth hon rhwng staff ysbytai a chriwiau ambiwlans. Tra bod protocolau wedi cael eu datblygu, ni chânt eu cymhwyso'n gyson eto. **Er mwyn dileu ansicrwydd ynghylch defnyddio'r terfynellau data, dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans ddangos y protocolau lleol sy'n gosod cyfrifoldebau penodol ar aelodau penodol**




**o staff o ran defnyddio'r terfynellau data ar adegau penodol yn ystod y broses drosglwyddo wrth y terfynellau yn glir. O bryd i'w gilydd dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans a'r ymddiriedolaethau acíwt archwilio cydymffurfiaeth â'r broses o weithredu'r protocolau.**

## Gwella'r broses o ddefnyddio a dadansoddi data amseroedd trosglwyddo

5 Nid yw'r data a gesglir drwy'r terfynellau data yn cael ei ddefnyddio'n eang gan reolwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n cynllunio gwasanaethau gofal heb ei drefnu. Y prif reswm dros hyn yw cyfyngiadau'r data fel problemau â chysondeb y broses gofnodi a natur gynhwysfawr y data. Mae hefyd broblemau mwy ymarferol yn deillio o'r flaenoriaeth i drosglwyddo cleifion sy'n ddifrifol wael weithiau yn hytrach na chofnodi data ar derfynell. **Unwaith y bydd proses gofnodi well a mwy cyson yn cael ei chyflawni, dylai sefydliadau'r GIG:**

a **defnyddio'r data ar amseroedd trosglwyddo i dynnu sylw at batrymau mewn galw a gwella eu proses o gynllunio'r adnoddau sydd eu hangen i ateb y galw;**

b **defnyddio'r data ar amseroedd trosglwyddo fel dangosydd amser real o'r pwysau sy'n wynebu adrannau achosion brys ac fel adnodd i helpu i lywio penderfyniadau ar beidio ag anfon ambiwlansys i ysbytai sy'n profi oedi gormodol wrth drosglwyddo cleifion;**

c **defnyddio'r data ar amseroedd trosglwyddo fel rhan o waith ehangach i asesu'r materion a'r problemau sy'n wynebu'r system gofal heb ei drefnu gyfan.**

## Sicrhau bod gwersi am y broses drosglwyddo yn cael eu dysgu a'u rhannu

6 Mae nifer fawr o agweddau cadarnhaol ar y broses drosglwyddo ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r agweddau cadarnhaol hyn yn amrywio'n fawr yn ôl ysbyty ac ni wneir fawr ddim i rannu negeseuon am yr hyn sy'n gweithio'n dda. Rydym wedi datblygu rhestr wirio (gweler Atodiad 2) i helpu sefydliadau'r GIG i wella'r broses drosglwyddo ymhob adran achosion brys. **Dylai sefydliadau'r GIG sy'n ymwneud â phob adran achosion brys gwrdd, lle y bo'n bosibl fel rhan o fforymau gofal heb ei drefnu sy'n bodoli eisoes, i drafod goblygiadau'r adroddiad hwn ac ystyried yn llawn a ydynt yn gweithredu'r agweddau cadarnhaol ar y broses drosglwyddo a danlinellir yn ein rhestr wirio.**

7 Mae'r prosesau a'r protocolau sy'n rheoli'r broses o drosglwyddo cleifion yn amrywio'n fawr rhwng ysbytai. Pan fydd criwiau ambiwlans yn cyrraedd ysbytai nad ydynt yn gyfarwydd â hwy, gallant fod yn ansicr ynghylch y trefniadau trosglwyddo lleol a gall hyn arwain at aneffeithlonrwydd y broses honno. **Wrth ymyl y derfynell data ymhob adran achosion brys, dylai ymddiriedolaethau acíwt arddangos poster sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo cleifion.**

8 Pan fydd pwysau difrifol mewn rhai adrannau achosion brys, gallai'r ymddiriedolaeth ambiwlans benderfynu anfon swyddog ambiwlans i'r adran i gyflymu'r broses drosglwyddo. Ymhlith rolau eraill, gallai'r swyddog ambiwlans ddod yn gyfrifol am ofal clinigol claf er mwyn rhyddhau criw ambiwlans i ymateb i ddigwyddiadau brys eraill. Gall y trefniadau hyn fod yn effeithiol o ran rhyddhau ambiwlansys ond maent yn peri problemau llywodraethu clinigol oherwydd

mae trosglwyddo'r cyfrifoldeb i swyddog ambiwlans yn gam ychwanegol yn y broses drosglwyddo sydd, yn y bôn, yn adlewyrchu'r galw a grëwyd gan fethiant y system gyffredinol. **Dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans gynnal archwiliad penodol o'r arfer lle mae criwiau ambiwlans yn trosglwyddo i swyddogion ambiwlans. Dylai'r archwiliad ystyried agweddau ar ddiogelwch cleifion yn ogystal â materion cofnodi data er mwyn llywio'r defnydd o swyddogion ambiwlans yn y dyfodol i dderbyn cleifion a drosglwyddir gan y criwiau sy'n eu cludo.**

9 Weithiau bydd criwiau ambiwlans yn profi oedi ar ôl iddynt drosglwyddo eu claf am na allant ailgyflenwi eu cerbydau yn hawdd gydag eitemau fel meddyginiaethau, dillad gwely neu gyfarpar. **Dylai ymddiriedolaethau acíwt a'r ymddiriedolaeth ambiwlans adolygu'r trefniadau ymhob adran achosion brys ar gyfer stocio eitemau a ail-gyflenwir gan staff ambiwlans. Unwaith y cytunir ar drefniadau stoc gwell, dylent fonitro data ar amseroedd trosglwyddo a gweithredu er mwyn nodi gwelliannau yng nghylchred ambiwlansys sy'n deillio o ailgyflenwi cerbydau mewn modd amserol ar ôl pob digwyddiad. Dylai manylion y trefniadau hyn gael eu cynnwys fel rhan o'r poster ar gyfer criwiau ambiwlans a grybwyllwyd yn argymhelliad 7.**

## Sicrhau bod cleifion yn cael eu cludo i'r ysbyty gan y gwasanaeth mwyaf priodol

10 Mae'r oedi a brofir gan ambiwlansys mewn adrannau achosion brys wedi cyfrannu at y nifer o gleifion a gaiff eu cludo i'r ysbyty gan yr heddlu neu wasanaethau tân ac achub. Mae'r digwyddiadau hyn yn peryglu cleifion, yn niweidio enw da'r ymddiriedolaeth ambiwlans, yn peri problemau mawr i swyddogion yr heddlu a swyddogion tân ar lefel bersonol ac yn cyfyngu ar allu'r heddlu a gwasanaethau tân ac achub i ymateb i argyfyngau eraill. **Argymhellwn y dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans:**

- a **gweithredu system i gofnodi pob achos lle y caiff claf ei gludo i'r ysbyty gan wasanaeth brys arall;**
- b **ar ôl pob achos lle y cludwyd claf i'r ysbyty gan wasanaeth brys arall, cynnal sesiwn ddadfriffio neu ddadansoddiad manwl i nodi achosion penodol y digwyddiad a gweld a ellir dysgu gwersi i osgoi'r fath ddigwyddiadau yn y dyfodol.**




# Rhan 1 - Mae'r broses o drosglwyddo cleifion o griwiau ambiwlans i adrannau achosion brys ysbytai yn rhy hir yn aml ond nid yw maint gwirioneddol y broblem yn glir




*Ysbyty ywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, Tachwedd 2008*

**1.1** Mae'r adran hon yn ystyried i ba raddau y mae cleifion yn profi oedi yn ystod y broses drosglwyddo a'r ffyrdd y caiff perfformiad ym maes trosglwyddo cleifion ei fonitro. Nodwyd y canlynol:

- **a** mae'r broses drosglwyddo yn rhy hir yn aml a chaiff effaith niweidiol ar gleifion, staff, y broses o ddarparu gwasanaethau'r GIG a'r gwasanaethau brys eraill sydd weithiau yn cludo cleifion i'r ysbyty;
- **b** nid yw'r broses o fonitro amseroedd trosglwyddo yn ddigon effeithiol eto i roi arwydd clir o gyflymder ac effeithlonrwydd y broses drosglwyddo.

## Mae'r broses o drosglwyddo cleifion yn rhy hir yn aml a chaiff effaith niweidiol ar ddinasyddion a'r GIG ehangach yng Nghymru

### Caiff amseroedd trosglwyddo gormodol effaith niweidiol ar gleifion

**1.2** Mae cleifion sy'n profi amseroedd trosglwyddo gormodol o fewn adrannau achosion brys ysbytai hefyd yn profi oedi o ran cael y sylw meddygol sydd ei angen arnynt. Dywedodd staff wrthym mai prin yw'r achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion sy'n fwy difrifol. Fodd bynnag, mae unrhyw fath o oedi mewn perthynas ag unrhyw glaf yn annerbyniol oherwydd mae angen i'r mwyafrif helaeth o gleifion a gludir i'r ysbyty gan ambiwlans gael triniaeth neu ofal ar fyrder na all gael ei ddarparu gan barafeddyg yn unig.

**1.3** Yn ystod ein hymweliadau gwaith maes gwelsom y ffordd y gall achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mewn nifer fach o achosion dechreuodd cleifion bryderu a chynhyrfu o ganlyniad i'r oedi a brofwyd a gwelsom enghreifftiau o gleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr yn teimlo'n rhwystredig ac yn drysu ynghylch y rhesymau dros yr oedi hwn.

**1.4** Pan fydd cleifion yn profi oedi yn ystod y broses o drosglwyddo cleifion, maent yn aml yn aros ar drolïau ambiwlans mewn coridorau ysbyty. Mae'r coridorau hyn yn aml yn brysur, yn ddrafftlyd ac mae i hyn oblygiadau amlwg o ran urddas, preifatrwydd a chysur y claf.

1.5 Yn ogystal â'r nifer fawr o gleifion a all gronni pan fydd oedi wrth drosglwyddo cleifion, nodwyd y gall problemau gyda'r broses drosglwyddo arwain yn aml at weld rhes o ambiwlansys yn aros y tu allan i ysbytai (fel yn Ffigur 4). Mae gweld ambiwlansys a chleifion yn gorfod aros mewn ysbytai yn niweidio enw da'r GIG yng Nghymru oherwydd mae'n arwydd amlwg o aneffeithlonrwydd a'r bobl y mae'r aneffeithlonrwydd hwn yn effeithio arnynt. Yn ogystal ag oedi wrth drosglwyddo cleifion, gall rhesi hir o ambiwlansys fod yn aros y tu allan i ysbytai am resymau eraill a all gynnwys digwyddiadau difrifol iawn lle mae sawl unigolyn wedi'i anafu, criwiau yn cymryd egwyl a gallu ac adnoddau o fewn yr uned achosion brys.

**Ffigur 4 - Gwelsom nifer fawr o ambiwlansys yn aros y tu allan i adrannau achosion brys yn aml**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Brenhinol Gwent, Rhagfyr 2008*

**Mae'r broses o drosglwyddo cleifion yn peri'r risg o niweidio morâl staff y GIG drwy fwy o straen a rhwystredigaeth**

1.6 Gall adrannau achosion brys ysbytai fod yn weithleoedd sy'n peri straen. Maent yn weithleoedd prysur ar y cyfan sydd â niferoedd mawr o gleifion sydd angen graddau amrywiol o ofal sy'n cynnwys achosion brys difrifol iawn sy'n rhoi bywydau pobl yn y fantol. Mae amseroedd trosglwyddo cleifion gormodol yn aml yn mynd law yn llaw ag adegau o bwysau acíwt yn yr adrannau hyn. Mae'r ffaith y gall fod cleifion yn aros am driniaeth ar drolïau ambiwlans mewn coridorau ysbyty yn ddiau yn ychwanegu at y pwysau a'r straen a brofir gan y staff sy'n gweithio yn yr adrannau hyn.

1.7 Yn ystod ein hymweliadau gwaith maes dywedwyd wrthym am y rhwystredigaeth sylweddol y gall staff y GIG ei phrofi weithiau wrth drosglwyddo cleifion. Dywedodd staff nyrsio wrthym y gallant deimlo rhwystredigaeth o ganlyniad i'r problemau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth sy'n peri oedi wrth drosglwyddo cleifion. A dywedodd llawer o griwiau ambiwlans wrthym am y rhwystredigaeth a brofir ganddynt pan gânt eu hoedi yn yr ysbyty sydd felly yn golygu na allant ymateb i alwadau brys eraill. Mae Blwch 2 yn crynhoi rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd gan staff ynghylch y ffordd y mae oedi wrth drosglwyddo cleifion yn effeithio arnynt a dengys Ffigur 5 y sefyllfa a welwyd yn Ysbyty Brenhinol Gwent pan brofodd hyd at saith criw ambiwlans oedi yn yr adran achosion brys.




**Blwch 2 - Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym am y rhwystredigaeth a brofir ganddynt pan fydd oedi wrth drosglwyddo cleifion**

Mae'r blwch hwn yn crynhoi rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd gan staff ynghylch y ffordd y mae oedi wrth drosglwyddo cleifion yn effeithio arnynt.

- **a** Gall criwiau ambiwlans fod yn aros am amser hir mewn coridorau ysbyty pan deimlant y byddent yn defnyddio eu hamser yn well yn ymateb i alwadau brys.
- **b** Ym marn rhai criwiau ni chaiff gwelyau eu rheoli'n effeithlon o ran eu rhyddhau a hwyluso llif cleifion drwy'r ysbyty.
- **c** Nid yw rhai aelodau o staff ysbyty o'r farn bod ganddynt unrhyw bŵer i atal oedi wrth drosglwyddo cleifion a chredant fod hyn yn creu tensiwn rhwng staff yr ysbyty a chriwiau ambiwlans.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

### Mae amseroedd trosglwyddo cleifion ac amseroedd gweithredu ambiwlansys gormodol yn defnyddio adnoddau hanfodol ac yn lleihau gallu'r ymddiriedolaeth ambiwlans i ymateb i achosion brys eraill


**1.8** Yn ogystal â'r effeithiau niweidiol a gaiff achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion ar gleifion a staff, mae'r achosion hyn hefyd yn ei gwneud yn anos i'r ymddiriedolaeth ambiwlans allu ymateb i achosion brys eraill. Os bydd ambiwlansys yn profi oedi o fewn adrannau achosion brys ysbytai, mae llai o griwiau ambiwlans ar gael gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans i'w hanfon i achosion brys. Fel y byddwn yn ei drafod drwy'r adran hon o'r adroddiad, mae'r lleihad hwn yn nifer y criwiau ambiwlans sydd ar gael, yn y bôn, yn peri ystod eang o broblemau gweithredol i'r ymddiriedolaeth ambiwlans.

**1.9** Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi profi problemau hirdymor yn sgîl yr amser a gollwyd o ganlyniad i amseroedd gweithredu gormodol. Bu rhai arwyddion o welliant yn ystod hanner cyntaf blwyddyn galendr 2008, lle, ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd, roedd nifer yr oriau a gollwyd yn sgîl amseroedd gweithredu a oedd yn fwy nag 20 munud yn is na misoedd cyfatebol yn 2007[8]. Fodd bynnag, ym mlwyddyn galendr 2008, cyfrifodd yr ymddiriedolaeth ambiwlans ei bod wedi colli 29,200 o oriau criwiau ambiwlans y tu hwnt i'r targed o 20 munud ar gyfer amseroedd gweithredu o fewn adrannau achosion brys ysbytai yng Nghymru a 3,100 o oriau pellach mewn ysbytai yn Lloegr. Gall achosion o oedi mewn ysbytai yn Lloegr gael effaith fawr mewn ardaloedd fel Powys a Sir Fynwy lle mae perfformiad o ran ardal ddaearyddol ac amser ymateb yn heriol iawn. Yn seiliedig ar gyfrifiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans ei hun o gost uniongyrchol o £76 yr awr, cost uniongyrchol amcangyfrifedig yr oriau coll hyn yw mwy na £2.4 miliwn er bod costau llawer ehangach o ran effeithiolrwydd y gwasanaeth. Pan ymddangosodd gerbron Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2009, nododd Prif Weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans i'w ddadansoddiad atchwel ddangos am bob 24 o oriau uned ambiwlans a gollwyd wrth 'ddrws ffrynt' Ysbyty Brenhinol Gwent, bu gostyngiad o chwech y cant o ran perfformiad amseroedd ymateb Categori 'A' yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Dengys Ffigur 6 sefyllfa y tu allan i'r uned achosion brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn ystod ein hymweliad.

**1.10** Dengys Ffigurau 2 a 3 y gweithgareddau sy'n ffurfio'r broses o ddarparu ymateb brys a hefyd y targedau ar gyfer pa mor hir y dylai'r gweithgareddau hynny ei gymryd. Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi gosod targed iddi'i hun i anfon ymateb, ambiwlans neu gerbyd ymateb cyflym fel arfer, o fewn 30 eiliad i ddilysu tri darn o wybodaeth gan ddinesydd sy'n gwneud galwad 999 - enw'r sawl sy'n ffonio, lleoliad y digwyddiad a natur y digwyddiad. Y cyfnod hwn o 30 eiliad yw'r

8 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2009

**Ffigur 5 - Profodd hyd at saith criw ambiwlans oedi wrth drosglwyddo cleifion yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn ystod un o'n hymweliadau**



*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Brenhinol Gwent, Rhagfyr 2008*

cam cyntaf yn y broses o ymateb i ddigwyddiad Categori 'A' o fewn wyth munud a'r enw cyffredin arno yw 'dilysu i anfon'. Unwaith y bydd y broses ddilysu wedi'i chwblhau, nid oes unrhyw reswm dros unrhyw oedi o ran anfon ymateb brys i ddigwyddiad heblaw am y ffaith nad oes cerbydau ymateb ar gael.

1.11 Fodd bynnag, pan fydd niferoedd mawr o ambiwlansys yn profi oedi mewn ysbytai, mae hyn yn lleihau nifer y criwiau sydd ar gael i'r ystafell reoli eu hanfon i ymateb i alwadau brys newydd yn ddramatig.

1.12 Dengys Ffigur 7 sawl eiliad a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer y broses dilysu i anfon ymhob mis dros gyfnod o 25 mis ar gyfer pob digwyddiad Categori 'A' a gafwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Dengys fod y ganolfan reoli wedi profi anawsterau parhaus o ran ymateb o fewn ei tharged o 30 eiliad ond pan fo pwysau aruthrol, er enghraifft ym mis Rhagfyr 2008, iddi ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r amser ymateb wyth munud ar y broses o ddyrannu ymateb.

**Ffigur 6 - Profodd chwe ambiwlans a cherbyd ymateb cyflym oedi yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn ystod ein hymweliad**





Llun a dynnwyd yn Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Tachwedd 2008 yn ystod un o'n dau ymweliad. Cyfrifodd yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn ystod mis Tachwedd 2008 iddi golli 547 o oriau ambiwlans yn yr ysbyty y tu hwnt i'r uchafswm o 20 munud a roddir i weithredu ambiwlans mewn adran achosion brys.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Athrofaol Cymru, Tachwedd 2008*




**Ffigur 7 - Mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd bob mis gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans i anfon ymateb i bob digwyddiad Categori 'A' wedi bod yn cynyddu mewn misoedd diweddar gan gyrraedd 383 eiliad ym mis Rhagfyr 2008, gan adael dim ond 97 eiliad ar gyfartaledd i'r ymateb gyrraedd y digwyddiad o fewn targed wyth munud Llywodraeth y Cynulliad.**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans, Chwefror 2009*

**1.13** Ar lefel ardaloedd penodol, gwelwyd bod y problemau hyn mor ddifrifol fel ei fod yn golygu na all y ganolfan reoli anfon ambiwlans i ddigwyddiad Categori 'A' o fewn y targed wyth munud a bennwyd i'r ymateb brys gyrraedd y claf yn fynych, yn enwedig yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thor-faen. Rhydd Atodiad 4 graffiau sy'n dangos yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd bob mis i anfon ymateb i alwadau Categori 'A' ymhob un o'r 22 o ardaloedd yng Nghymru.

**1.14** Ffactor arall sy'n peri'r problemau lleol o ran cyflawni perfformiad amser ymateb da yw'r gwahaniaeth mawr yn yr amser a gollir yn sgîl amseroedd gweithredu gormodol. Dengys dadansoddiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans ei hun fod gwahaniaeth mawr yn y tri rhanbarth o ran yr amser a gollwyd, sy'n golygu ar adegau penodol fod problemau mawr o ran darparu gwasanaethau ymatebol.

**1.15** Mae nifer y cleifion sy'n mynd i adrannau achosion brys ysbytai yng Nghymru yn cynyddu'n raddol (Ffigur 8). Ym mis Rhagfyr 2008 roedd y niferoedd a aeth i adrannau achosion brys bob wythnos ar gyfartaledd yn unol â thueddiadau tymhorol ar y cyfan, ond profodd yr ymddiriedolaeth ambiwlans gynnydd mawr yn nifer yr oriau a gollwyd gan ambiwlansys a brofodd oedi mewn adrannau achosion brys (Ffigur 9).

**Ffigur 8 - Bu cynnydd o ran y niferoedd sy'n mynd i'r prif adrannau achosion brys yng Nghymru bob wythnos ar gyfartaledd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae nifer y cleifion sy'n cael eu cludo i adrannau achosion brys wedi cynyddu'n gyflymach dros yr un cyfnod.**





*Ffynonellau: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans a data Llywodraeth y Cynulliad, Chwefror 2009*

**1.16** Mae'r cynnydd mewn oriau ambiwlans coll mewn adrannau achosion brys ym mis Hydref, mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2008 yn cyfateb i'r cynnydd yn yr amser a gymerwyd i anfon ymateb i ddigwyddiadau Categori 'A' o ganlyniad i'r diffyg adnoddau a oedd ar gael. Fe'i hadlewyrchir hefyd yn y gwaethygiad ym mherfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans o ran ymateb i ddigwyddiadau Categori 'A' o fewn wyth munud (Ffigur 10). Er bod amseroedd gweithredu gormodol yn ffactor pwysig yn y gwaethygiad ym mherfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans o ran amseroedd ymateb, ymhlith y ffactorau eraill mae pwysau ariannol, lefelau staffio a swyddi gwag yn Ne-ddwyrain Cymru, patrymau sifft yng Nghaerdydd nad ydynt yn cyfateb i'r cyflenwad a'r galw a lefelau absenoldeb oherwydd salwch. Gellir cael esboniad pellach o'r ffactorau hyn yn ein hadroddiad diweddar i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar y wybodaeth ddiweddaraf[9].

9 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2009





## Ffigur 9 - Ym mis Rhagfyr 2008 bu cynnydd mawr yn nifer yr oriau ambiwlans a gollwyd mewn ysbytai yng Nghymru ag adran achosion brys mawr





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans, Chwefror 2009*

## Ffigur 10 - Mae canran y galwadau Categori 'A' yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud wedi gostwng ledled Cymru ers mis Mai 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*

**Ffigur 11 - Gall lleiafswm sylweddol o amseroedd gweithredu gymryd mwy nag awr i'w cwblhau**




Cyfanswm ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, y nifer o weithredu ambiwlansys am achosion categori A a B ac helaethrwydd yr oedi yn 2008

**Noder**

Mae'r data hwn yn cynnwys adrannau achosion brys rhan amser.


*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans, Chwefror 2009*

**1.17** Effaith arall a gaiff amseroedd gweithredu gormodol ar yr ymddiriedolaeth ambiwlans yw'r amharu ar gynlluniau'r ymddiriedolaeth i ateb y galw. Wrth gynllunio nifer y criwiau sydd eu hangen mewn ardal benodol, mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn gwneud tybiaethau ynghylch y nifer nodweddiadol o alwadau a gaiff a'r amser nodweddiadol a gymerir i ymateb i'r galwadau hyn. Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn tybio pan fydd criw yn ymateb i ddigwyddiad, y bydd ar gael i ymateb i'r alwad nesaf o fewn awr. Os yw'n cymryd mwy nag awr dim ond i ambiwlansys weithredu o fewn adrannau achosion brys ysbytai bydd hyn yn peri problemau mawr i fodel gallu ac adnoddau a galw'r ymddiriedolaeth ambiwlans. Er bod Ffigur 11 yn dangos i'r rhan fwyaf o amseroedd gweithredu gael eu cwblhau mewn llai nag awr, roedd bron 10,000 o amseroedd gweithredu yn 2008 yn fwy nag awr. Rhoddir dadansoddiadau tebyg ar gyfer pob ysbyty yr ymwelwyd ag ef yn ystod ein gwaith maes yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

**1.18** Dengys Ffigur 12 y gwahaniaeth mawr fesul ymddiriedolaeth acíwt o ran canran yr amseroedd gweithredu a gymerodd fwy nag awr i'w cwblhau. Ceir problemau penodol yn Ysbyty Brenhinol Gwent lle y cymerodd bron 12 y cant o amseroedd gweithredu yn 2008 fwy nag awr, ac yn Ysbyty Athrofaol Cymru lle y cymerodd mwy na saith y cant fwy nag awr. Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2008, dywedodd Prif Weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans wrth Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2009 i oriau coll ambiwlansys yn Ysbyty Brenhinol Gwent gynyddu o lai na hanner sifft 12 awr i ddwy sifft 12 awr a hanner.




**Ffigur 12 - Ceir gwahaniaeth mawr yng nghanran yr holl amseroedd gweithredu ambiwlansys a gymerodd fwy nag awr i'w cwblhau yn 2008**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a roddwyd gan awdurdod yr heddlu a'r awdurdod tân ac achub*

**1.19** Gydag amseroedd gweithredu yn fwy nag awr yn yr ysbytai hyn yn aml, mae gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans lai o ambiwlansys o lawer nag sydd eu hangen arni i ateb y galw yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn arwain at griwiau ambiwlans o ardaloedd mwy gwledig yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd fel Caerdydd a Chasnewydd i ymateb i alwadau brys. Mae'n rhaid i'r ambiwlansys gwledig hyn deithio'n bellach i ymateb i achosion brys yn yr ardaloedd trefol, sy'n golygu y cymerir mwy o amser i gyrraedd digwyddiadau brys. Hefyd, mae symud yr ambiwlansys gwledig hyn o'u hardaloedd gwreiddiol yn lleihau'r adnoddau ambiwlans yn yr ardaloedd gwledig, a thrwy hynny gyfyngu ar allu'r ymddiriedolaeth ambiwlans i ymateb yn gyflym i achosion brys yn yr ardaloedd gwledig.

**1.20** Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2009, nododd Prif Weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans i'r amser a gollwyd drwy amseroedd gweithredu gormodol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a pherfformiad amseroedd ymateb Categori 'A' yn yr ardal, ddechrau gwella'n ddiweddar iawn drwy ddarparu mwy o adnoddau uwch feddygol yn yr adran achosion brys ac ailgyflwyno Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyflym Gwent (GRATS).

### Mae amseroedd gweithredu gormodol yn cyfrannu at raddau annerbyniol o wasanaethau brys eraill yn cludo cleifion i'r ysbyty yn absenoldeb ymatebion ambiwlans amserol

**1.21** Dangosodd adroddiad cyntaf yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau ambiwlans, rhwng mis Ionawr a mis Awst 2006, i'r gwasanaeth

tân a'r heddlu gludo 90 o gleifion o leiaf i'r ysbyty, sy'n cyfateb i tua 11 o gleifion bob mis[10]. Mae problemau gyda’r system ehangach yn golygu bod swyddogion yr heddlu a’r criwiau tân yn parhau i gludo cleifion i’r ysbyty. Awgryma data a gasglwyd gan y gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu i broblemau'r ymddiriedolaeth ambiwlans wrth ymateb i alwadau brys arwain at gynyddu'r baich ar wasanaethau brys eraill o ran cludo cleifion i'r ysbytyyn enwedig yn ystod y cyfnod o bwysau gaeaf difrifol ac estynedig ym mis Rhagfyr 2008 a mis Ionawr 2009. Fe'n hysbyswyd gan Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2008, iddynt gludo 89 o gleifion i'r ysbyty, sef tua 30 o gleifion bob mis. Cafwyd rhai achosion yn ymwneud â Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o'r fath ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â’r gwasanaethau Tân ac Achub neu’r Heddlu. Yn ôl yr ymddiriedolaeth ambiwlans lleihaodd nifer y digwyddiadau hyn ym mis Chwefror a mis Mawrth 2009 yn unol â’r ffaith bod llai o amser yn cael ei golli yn sgîl amseroedd gweithredu hir – ond cafodd dal 23 o achosion eu cofnodi i’r Cyd-grwp Gwasanaethau Brys ym mis Mawrth 2009.

**1.22** Mae pob achos lle y caiff claf ei gludo i'r ysbyty gan wasanaeth brys heblaw am yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn peri risgiau mawr i bawb dan sylw. Peryglir diogelwch y claf oherwydd ni ofelir amdano gan staff ambiwlans a hyfforddwyd yn briodol ac fe'i cludir mewn cerbyd nas cynlluniwyd i gludo cleifion. Mae hefyd risgiau personol a phroffesiynol i swyddogion yr heddlu a diffoddwyr tân sy'n cludo cleifion. Mae’r heddlu wedi nodi risg sef os byddai claf a gaiff ei gludo gan yr heddlu yn marw, yna byddai'n cael ei ddosbarthu'n 'farwolaeth yng ngofal yr heddlu' a byddai'n destun ymchwiliad gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a fyddai iddo oblygiadau mawr o ran adnoddau ac enw da i’r holl wasanaethau sydd yn gysylltiedig.

**1.23** Mae’r fath achosion wedi bod yn niweidiol iawn i enw da a hygrededd yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac mae'n fethiant ar ei rhan i gyflawni ei rôl fwyaf sylfaenol, sef cludo cleifion i'r ysbyty ar frys. Mae'r fath ddigwyddiadau hefyd yn adlewyrchu'n wael ar y GIG ehangach a'r gwasanaethau brys eraill sy'n cludo cleifion i'r ysbyty.

**1.24** Yn olaf, mae’r achosion hyn yn tynnu costau ac yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu i gyflawni eu swyddogaethau craidd. Os yw swyddogion yr heddlu, diffoddwyr tân a'u cerbydau ymateb yn cludo cleifion i'r ysbyty ac yna’n aros i’w trosglwyddo i ofal staff yr ysbyty, caiff yr adnoddau hanfodol hyn eu hatal rhag ymateb i achosion brys eraill sy'n dod o dan gylch gwaith yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub yn benodol. Mae Cyd-grwp Gwasanaethau Brys wedi dod â phryderon at sylw Llywodraeth y Cynulliad ac yn gweithio at gyflawni datrysiad gynaliadwy i’r problemau hyn.

10 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru, Rhagfyr 2006, paragraff 1.26




## Nid yw'r union raddau y mae cleifion yn profi oedi yn ystod y broses drosglwyddo yn glir

### Ni chaiff amseroedd trosglwyddo eu cofnodi'n gyson yn sgîl problemau gyda therfynellau data ac ymddygiad pobl


Ledled Cymru, ym mis Rhagfyr 2008, ni chafodd bron pedwar o bob pum achos o drosglwyddo cleifion eu cofnodi gan ddefnyddio'r terfynellau data ac mae cydymffurfiaeth â'r gofynion cofnodi yn amrywio'n fawr fesul ymddiriedolaeth acíwt

**1.25** Mae'r targed ar gyfer trosglwyddo cleifion yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro amseroedd trosglwyddo cleifion. Dechreuwyd defnyddio'r terfynellau data ym mis Medi 2008 a rhoddwyd y gorau i hynny ym mis Tachwedd oherwydd problemau technegol ond yn y mis llawn cyntaf o weithredu, sef mis Rhagfyr 2008, nodwyd na chafodd bron pedwar o bob pum achos o drosglwyddo cleifion eu cofnodi gan ddefnyddio'r terfynellau data. Dengys Ffigur 13 fod canran yr amseroedd trosglwyddo a gofnodwyd gan ddefnyddio'r terfynellau data yn amrywio'n fawr fesul ymddiriedolaeth acíwt y GIG. A hyd yn oed yn yr ymddiriedolaeth â'r ganran uchaf o achosion o drosglwyddo cleifion a gofnodwyd dim ond 46 y cant oedd y ffigur hwn.

Mae problemau gyda'r terfynellau data yn atal rhai amseroedd trosglwyddo rhag cael eu cofnodi

**1.26** Un o'r prif broblemau o ran cofnodi amseroedd trosglwyddo cleifion yn gyson adeg ein gwaith maes oedd y ffaith nad oedd y terfynellau data yn gweithio'n aml ac felly nid oedd modd eu defnyddio. Er nad oedd yr

**Ffigur 13 - Ceir gwahaniaeth mawr fesul ymddiriedolaeth yng nghanran yr holl achosion o drosglwyddo cleifion a gofnodwyd gan ddefnyddio'r terfynellau data**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


ymddiriedolaeth ambiwlans yn gallu rhoi gwybodaeth am yr amser nad oedd y terfynellau data yn gweithio, gwelsom nifer o sgriniau nad oeddent yn gweithio yn ystod ein gwaith maes. Pan ofynnwyd i staff ambiwlans ac ysbyty a oedd unrhyw broblemau nas rhagwelwyd yn deillio o'r defnydd o'r terfynellau data, dywedodd tua 21 y cant (27 allan o 127) fod y ffaith nad oedd y sgriniau yn ddibynadwy iawn yn broblem.

**1.27** Nododd adroddiad mewnol yr ymddiriedolaeth ambiwlans ar yr Archwiliad o Sgriniau Cyrraedd Ysbytai ym mis Rhagfyr 2008[11] fod problemau yn bodoli o fewn pump o'r saith adran damweiniau ac achosion brys yr ymwelwyd â hwy mewn perthynas â rhoi sgriniau mewn mannau gwael, sgriniau nad oedd modd eu gweithredu neu sgriniau nas gosodwyd. Am fod y problemau hyn y tu hwnt i gwmpas cyfrifoldebau'r ymddiriedolaeth ambiwlans, fe'u cyfeiriwyd at Lywodraeth y Cynulliad i'w datrys gan yr ymddiriedolaeth. Bydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn cynnal archwiliad pellach ar sail Cymru gyfan ym mis Ebrill 2009.

**1.28** Nodwyd bod staff y GIG yn ddifater ar y cyfan o ran y terfynellau data a'u bod yn barod iawn i ddefnyddio'r ffaith nad oeddent yn gweithio fel esgus i beidio â'u defnyddio yn hytrach na rhoi gwybod am y broblem i'w datrys. Ategir y casgliad hwn gan y ffaith mai prin y rhoddwyd gwybod am wallau i dîm cymorth canolog yr ymddiriedolaeth ambiwlans o gymharu â graddau'r broblem a welwyd gennym yn ystod ein hymweliadau ag ysbytai (rhydd Ffigur 14 un enghraifft o derfynell data nad oedd yn gweithio yn ystod ein hymweliad ag ysbyty na roddwyd gwybod amdani).

**1.29** Ers ein gwaith maes mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi cymryd rhai camau cadarnhaol i sicrhau bod y terfynellau data yn fwy dibynadwy.

**Ffigur 14 - Nid oedd y terfynellau data yn gweithio'n aml a dim ond sgrîn las a welwyd**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Brenhinol Gwent, Rhagfyr 2008*

**1.30** Yn ystod cyfnodau hir o anweithgarwch, dangosir sgrîn-arbedwr. Mae'r arbedwr sgrîn yn gwneud iddi ymddangos yn ddu a gallai roi'r argraff anghywir nad yw'r derfynell yn gweithio'n gywir. Nodwyd hefyd mai dim ond adnewyddu neu ailddechrau'r system yr oedd angen ei wneud ar rai sgriniau nad oedd yn ymddangos eu bod yn gweithio ond nid oedd llawer o staff yn gwybod sut i wneud hyn. Cynhwysir gwybodaeth am sut i ailddechrau'r system ar garden gynghori safonol a ddarperir wrth rai terfynellau data, ond nid pob un.

**1.31** Problem arall o ran gweithredu'r terfynellau data yw bod rhai sgriniau wedi cael eu rhoi mewn mannau amhriodol (Ffigur 15). Roedd rhai aelodau o staff o'r farn bod y sgriniau wedi cael eu cuddio o fewn adrannau achosion brys neu eu bod mewn mannau a

11 Hospital Screens Audit, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Rhagfyr 2008




**Ffigur 15 - Roedd rhai o'r terfynellau data mewn mannau amhriodol**



*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Llwynhelyg, Tachwedd 2008. Yn Ysbyty Llwynhelyg, mae'r adran damweiniau ac achosion brys mewn lleoliad dros dro ar hyn o bryd er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu adran achosion brys a gofal heb ei drefnu newydd sy'n werth £8 miliwn*

allai fynd yn brysur iawn ac yn boblog. Y dewis leoliad ar gyfer sgriniau i lawer o griwiau ambiwlans oedd wrth fynedfa ambiwlansys i'r adran achosion brys. Dim ond pum adran, Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, oedd â sgriniau wrth y fynedfa i'r adran a ddefnyddiwyd gan griwiau ambiwlans.

**1.32** Nid yw'r Adran Iechyd wedi gosod targed trosglwyddo yn Lloegr ac nid oes unrhyw derfynellau data mewn ysbytai yn Lloegr i gofnodi'r amseroedd hyn. Fodd bynnag, mae criwiau ambiwlans o Gymru yn trosglwyddo cleifion mewn ysbytai yn Lloegr yn aml gyda 9,600 o achosion o weithredu ambiwlansys yn 2008. Collodd yr ymddiriedolaeth ambiwlans 3,100 o oriau y tu hwnt i'r targed gweithredu o

## Blwch 3 - Mae gan rai aelodau o staff safbwyntiau negyddol am yr angen i gofnodi gwybodaeth am amseroedd trosglwyddo

**a** Nid ymddengys fod rhai criwiau ambiwlans wedi derbyn yr angen i ddefnyddio'r terfynellau data.

**b** Mae rhai staff nyrsio a chriwiau ambiwlans yn gwrthwynebu'r angen i gofnodi'r wybodaeth hon a theimlant fod hyn yn tarfu ar ofal cleifion.

**c** Mae tystiolaeth o densiwn mewn rhai ardaloedd rhwng staff nyrsio a chriwiau ambiwlans o ran cofnodi amseroedd trosglwyddo. Weithiau mae hyn yn deillio o staff nyrsio yn atgoffa criwiau i ddefnyddio'r sgriniau a'r canfyddiad bod staff nyrsio felly yn cadw llygad ar y staff ambiwlans.

**ch** Hyd yn hyn nid yw defnyddio'r terfynellau data wedi dod yn rhan o ddiwylliant adrannau achosion brys ac felly ni wneir hyn yn gyson.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

20 munud mewn ysbytai yn Lloegr yn 2008. Ni chofnodir yn benodol yr amser y mae'n ei gymryd i drosglwyddo cleifion, yn wahanol i amseroedd gweithredu, mewn ysbytai yn Lloegr er gwaethaf effaith unrhyw oedi mewn ysbytai yn Lloegr ar griwiau o Bowys a Sir Fynwy sydd yn aml yn gorfod teithio'n bell i ddychwelyd i'w lleoliadau dyrannu arferol.

### Nid yw rhai aelodau o staff yn cofnodi amseroedd trosglwyddo am nad ydynt yn cytuno â monitro eu gweithgareddau ymhellach, am nad ydynt yn siŵr o'u cyfrifoldebau neu am eu bod o'r farn bod cofnodi data yn eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau clinigol

**1.33** Mae agweddau staff tuag at gofnodi amseroedd trosglwyddo yn rhwystr mawr i fonitro a rheoli'r broses drosglwyddo yn gywir. Mae Blwch 3 yn crynhoi rhai enghreifftiau nodweddiadol o'r hyn a ddywedodd staff wrthym am gofnodi amseroedd trosglwyddo.

**1.34** Gallai'r gofyniad i gofnodi amseroedd trosglwyddo fod wedi cael ei dderbyn yn well gan staff y GIG petai gwell dealltwriaeth wedi bod, ar lefel weithredol, o fwriad y terfynellau

data. Dywedodd sawl aelod o staff wrthym mai prin oedd y wybodaeth a roddwyd am y system cyn ei gweithredu.

**1.35** Gwnaeth yr ymddiriedolaeth ambiwlans gyflwyno rhaglen hyfforddi i gyd-fynd â lansio'r terfynellau data. Yn gyffredinol cynhwysai'r hyfforddiant staff ambiwlans ar fân ddyletswyddau yn mynd i adrannau achosion brys ysbytai i hyfforddi criwiau ambiwlans ac i raddau llai, staff nyrsio. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolaethau acíwt oedd rhaeadru'r hyfforddiant hwn i staff eraill, a darparodd yr ymddiriedolaeth ambiwlans becyn hyfforddiant ar y we i staff. Roedd rhai aelodau eraill o staff yn llai cadarnhaol am yr hyfforddiant ac o'r farn bod angen mwy o amser a chymorth arnynt. Crynhoir rhai o'r safbwyntiau am y rhaglen hyfforddi a glywsom yn ystod ein gwaith maes ym Mlwch 4.

**1.36** Er i gytundebau lleol gael eu llunio ar gyfer cofnodi amseroedd trosglwyddo, un cyfyngiad mawr o ran y rhaglen hyfforddi yw bod rhai aelodau o staff yn dal i fod yn ansicr ynghylch pwy yn union a ddylai gofnodi'r wybodaeth am amseroedd trosglwyddo ar y terfynellau data. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn amrywio yn ôl ysbyty gyda rhai adrannau yn disgwyl i griwiau ambiwlans gofnodi'r holl wybodaeth am amseroedd trosglwyddo, tra bod adrannau eraill yn disgwyl i staff nyrsio ddefnyddio'r terfynellau i gadarnhau bod y broses wedi'i chwblhau. Roedd y diffyg cysondeb gweithdrefnol hwn, a'r amrywiadau fesul ysbyty, yn golygu nad oedd rhai aelodau o staff yn defnyddio'r sgriniau o gwbl.

**1.37** Ar adeg ein gwaith maes, roedd y sgriniau data yn arddangos logo'r ymddiriedolaeth ambiwlans ond nid logo unrhyw sefydliad arall. Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi newid y system erbyn hyn er mwyn arddangos logo GIG Cymru i bwysleisio'r ffaith nad cyfrifoldeb staff yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn unig yw cofnodi amseroedd trosglwyddo cleifion.

**Blwch 4 - Roedd llawer o safbwyntiau cadarnhaol am y rhaglen hyfforddi ond dywedodd staff eraill fod angen mwy o gymorth arnynt**

**a** Nodwyd bod sawl aelod o staff yn fodlon ar y rhaglen hyfforddi a'u bod o'r farn bod y system yn sythweledol ac yn hawdd i'w defnyddio.

**b** Roedd rhai aelodau o staff o'r farn bod yr hyfforddiant yn rhy fyr a bod angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn defnyddio'r terfynellau data yn hyderus.

**c** Un broblem a danlinellwyd gan nifer fechan o staff oedd yr amser hir a aeth heibio rhwng cael yr hyfforddiant a rhoi'r terfynellau data ar waith. Roedd rhai o'r farn eu bod wedi anghofio eu hyfforddiant yn y cyfamser.

*Ffynhonnell: Gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru*

**1.38** Os caiff claf sy'n sâl iawn ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans a bod angen i staff yr adran achosion brys fynd ato'n syth, nodwyd na chaiff gwybodaeth am amseroedd trosglwyddo ei chofnodi'n aml. Dywedodd staff wrthym, o dan yr amgylchiadau hyn, eu bod yn anwybyddu'r gofynion i gofnodi data yn aml am fod angen iddynt ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddiwallu anghenion clinigol cleifion yn gyflym.

**1.39** Dywedodd rhai criwiau wrthym ar ôl trosglwyddo claf sy'n ddifrifol wael, y gall y ganolfan reoli gysylltu â'r criw i ofyn am eu gwybodaeth am amseroedd trosglwyddo. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r arfer hwn yn gyson a gall y wybodaeth a roddir fod yn anghywir am na chafodd ei chofnodi adeg y digwyddiad.

### Pan gaiff amseroedd trosglwyddo eu cofnodi ni chaiff hyn ei wneud yn gywir nac yn effeithlon bob amser

**1.40** Rhydd Ffigur 2 fanylion am y ffordd y dylai staff y GIG gofnodi'r wybodaeth am amseroedd trosglwyddo yn ôl gweithdrefnau gweithredu safonol yr ymddiriedolaeth ambiwlans, ond nodwyd hyd yn oed pan gaiff




y terfynellau data eu defnyddio, caiff y wybodaeth ei chofnodi'n anghywir neu'n aneffeithlon yn aml.

1.41 Er gwaethaf y prosesau a ddogfennwyd, un rheswm pwysig am yr anghywirdeb yw bod sawl aelod o staff yn dal i fod yn aneglur am yr union bwynt yn y broses drosglwyddo pan ddylent fod yn defnyddio'r terfynellau data. Nodwyd bod rhai criwiau ambiwlans yn defnyddio'r sgriniau i gofnodi bod y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau cyn gynted â'u bod yn siarad â staff nyrsio ar ôl cyrraedd yr ysbyty. A nodwyd bod rhai staff nyrsio yn cofnodi bod y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau cyn gynted â bod y claf wedi'i brysbennu. Yn y ddau achos hyn, efallai nad oedd y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau'n llawn am gyfnod sylweddol o amser.

1.42 Ceir anghywirdeb arall mewn perthynas â chofnodi amseroedd trosglwyddo pan fydd criwiau ambiwlans yn trosglwyddo'r gofal am glaf i swyddog ambiwlans. Pan fydd oedi difrifol o ran amseroedd gweithredu mewn ysbytai, gall yr ymddiriedolaeth ambiwlans benderfynu defnyddio swyddog ambiwlans yn yr adran achosion brys. Rôl y swyddog hwn yw bod yn gyfrifol am ofal y cleifion o sawl criw ambiwlans. Mae'r arfer hwn sydd yn costio dros £330,000 i'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn 2008 yn rhyddhau criwiau ambiwlans i fod ar gael i ymateb i alwadau brys eraill.

1.43 Pan fydd criw ambiwlans yn trosglwyddo i swyddog ac yna'n hysbysu'r ganolfan reoli ei fod yn rhydd i ymateb i achos brys arall, cofnodir bod y broses drosglwyddo a gweithredu wedi'i chwblhau. Mewn gwirionedd, nid yw gofal y claf wedi'i drosglwyddo i staff yr ysbyty, ond i gydweithiwr arall o fewn yr ymddiriedolaeth ambiwlans. O safbwynt y claf, mae'n dal i aros i gael ei weld gan aelod o staff yr ysbyty ond o safbwynt data, dengys y system wybodaeth fod y claf wedi'i drosglwyddo. Mae diffygion y broses hon yn golygu na chaiff graddau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion eu cofnodi'n ddigonol. Awgryma gwaith archwilio sy'n darparu cipolwg o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent y gall fod problemau hefyd o ran: criwiau yn methu â chlirio ar y terfynellau data pan fydd y criw yn trosglwyddo'r claf i'r swyddog cyswllt, neu broblemau pan na chaiff criwiau eu clirio os na ellir gweld eu bod wedi gadael yr adran ar ôl trosglwyddo'r claf i'r swyddog cyswllt.

1.44 Yn ogystal â'r anghywirdeb sy'n gysylltiedig â chofnodi amseroedd trosglwyddo, nodwyd bod aneffeithlonrwydd o ran y broses gofnodi yn sgîl ehangder yr achosion o ddyblygu ymdrech. Mae rhai ysbytai yn cofnodi amseroedd trosglwyddo mewn ffyrdd eraill ar wahân i ddefnyddio'r terfynellau data. Ymhlith y fath ddulliau mae derbynyddion ysbytai yn ysgrifennu amseroedd trosglwyddo ar gardiau cleifion neu'n eu cofnodi â llaw ar glipfwrdd; ac mae un ymddiriedolaeth yn defnyddio ei system Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu eu hunain i fonitro amser trosglwyddo mewn cydnabyddiaeth cyfyngiadau ac anghywirdeb yn y data a gafodd ei gynhyrchu gan y sgrîn gyffwrdd. Ers mis Ionawr, mae ymddiriedolaethau wedi rhoi data a gofnodwyd â llaw i'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn fisol er mwyn cadarnhau bod y data a roddwyd yn gywir.

### Heb ddata cadarn ar drosglwyddo cleifion, amseroedd gweithredu yw'r mesur dirprwy mwyaf cywir er nad yw'r data hwn yn rhoi darlun clir o achosion yr oedi

1.45 Hyd nes bod y terfynellau data yn gweithio'n effeithiol, ac yn cael eu defnyddio'n gyson i gynhyrchu data cywir ar amseroedd trosglwyddo, y data a gesglir gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ar amseroedd gweithredu yw'r mesur dirprwy gorau o'r

amser a gollir yn ystod y broses drosglwyddo a gweithredu. Mae gan nifer o ymddiriedolaethau acíwt, yn ogystal â Llywodraeth y Cynulliad, bryderon ynghylch cywirdeb data gweithredu'r ymddiriedolaeth ambiwlans sy'n deillio o amryw o bryderon ynghylch cywirdeb data. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd sefydlu systemau cadarn i fesur amseroedd trosglwyddo. Mae'r pryderon hyn hefyd yn deillio o'r ffaith nad yw'r data yn cael ei ddilysu. Ni wnaethom archwilio cywirdeb y data o ganlyniad i'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i ddechrau defnyddio'r terfynellau data er mwyn rhoi gwybodaeth gywir am amseroedd trosglwyddo.

**1.46** Dengys data ar amseroedd gweithredu gyfanswm yr amser a dreulir gan griwiau ambiwlans o fewn adrannau achosion brys ysbytai ond nid yw'n ddigon manwl i ddangos yr amser a gymerir i gwblhau'r broses o drosglwyddo claf, na'r amser a gymerir rhwng cwblhau'r broses honno a'r criw ambiwlans yn datgan eu bod yn barod am yr alwad frys nesaf.

**1.47** Yn ogystal â phryderon ynghylch cywirdeb y data trosglwyddo, prin yw'r defnydd o amseroedd gweithredu fel mesur dirprwy o amseroedd trosglwyddo, am na all y data gael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng achosion o oedi wrth weithredu ambiwlansys yn sgîl y broses o drosglwyddo cleifion, ac achosion o oedi wrth weithredu ambiwlansys yn sgîl oedi cyn i griwiau ddatgan eu bod yn barod i ymateb i'r alwad frys nesaf. Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi gweithredu nifer o fesurau i sicrhau bod ei chanolfannau rheoli yn cael gwybod cyn gynted â phosibl pan fydd criw ambiwlans yn barod i ymateb i'r alwad frys nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

**a** y ganolfan reoli yn cadw cofnod electronig o ddigwyddiadau dilyniannol o fewn proses pob digwyddiad sy'n ei gwneud yn bosibl monitro'r amser sy'n mynd heibio ers y garreg filltir olaf yn y broses ar gyfer pob digwyddiad. Mae'r broses o nodi allgleifion yn sbarduno'r ganolfan reoli i gysylltu â chriwiau i egluro eu sefyllfa;


**b** rhydd technoleg lleoli cerbydau yn awtomatig interim stamp amser awtomatig pan fydd ambiwlans yn cyrraedd ysbyty; mae ffens ddaearyddol rithwir, 150 metr o amgylch pob ysbyty, yn cofnodi'r adeg y bydd criw yn cyrraedd yn awtomatig ac yn sbarduno cyswllt gan y ganolfan reoli os bydd ambiwlans yn mynd y tu hwnt i'r ffens ddaearyddol ond na chofnodwyd bod y criw ar gael gan y ganolfan reoli;

**c** mae'r ganolfan reoli yn monitro'n agos amseroedd aros amser real mewn ysbytai ar gyfer criwiau ambiwlans lluosog sy'n galluogi'r ganolfan reoli i egluro'r sefyllfa gydag unrhyw griw unigol sy'n rhagori ar ddisgwyliadau ar unrhyw adeg benodol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael;

**ch** wrth i'r broses o gydymffurfio â'r gofyniad i gofnodi data trosglwyddo cleifion ar y terfynellau wella, bydd gwell data a monitro mewn perthynas â throsglwyddo cleifion ac argaeledd ambiwlansys.




# Rhan 2 - Er bod y targed newydd wedi codi ymwybyddiaeth o achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion, mae angen i ymddiriedolaethau acíwt a'r ymddiriedolaeth ambiwlans gydweithio'n agosach i ddatrys y problemau systematig sy'n arwain at yr oedi hwn



*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Glan Clwyd, Tachwedd 2008*

**2.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar raddau ac effeithiolrwydd cydweithio i sicrhau bod lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r eithaf yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn flaenoriaeth i staff gweithredol, bod sefydliadau'r GIG yn cael yr adnoddau priodol i atal achosion o oedi a bod y protocolau a ddefnyddir i drosglwyddo cleifion yn ddiogel ac yn effeithlon. Nodwyd y canlynol:

**a** nid yw sefydliadau'r GIG wedi dangos yr arweinyddiaeth na'r weledigaeth angenrheidiol eto i ddod o hyd i atebion ar y cyd i'r problemau sy'n peri achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion;

**b** er bod staff y GIG yn ymddangos yn gwbl ymrwymedig i leihau amseroedd trosglwyddo, mae angen i'r gweithwyr hyn ddeall manteision cofnodi gwybodaeth am drosglwyddo cleifion a rhaid i sefydliadau'r GIG atal yr oedi hwn rhag dod yn rhan a dderbynnir o ddiwylliant adrannau achosion brys;

**c** mae cam-gymharu’r galw mewn adrannau achosion brys â'r adnoddau sydd ar gael yn ffactor pwysig o ran amseroedd trosglwyddo gormodol;

**ch** mae'r prosesau sydd ynghlwm wrth drosglwyddo cleifion yn amrywio mewn ysbytai gwahanol ond prin fu'r gwaith i rannu negeseuon rhwng ysbytai ynghylch yr hyn sy'n gweithio.

## Hyd yn hyn nid yw sefydliadau'r GIG wedi cydweithredu'n effeithiol ymhob ardal i sicrhau bod yr arweinyddiaeth a'r weledigaeth ofynnol yn bodoli i ddileu amseroedd trosglwyddo gormodol

**2.2** Bwriedir i'r targed trosglwyddo weithio law yn llaw â thargedau cenedlaethol eraill sy'n nodi y dylai 95 y cant o'r cleifion mewn adrannau achosion brys gael eu gweld, eu trin a bod wedi gadael yr adran o fewn pedair awr ac y dylid ymdrin â'r holl gleifion hyn o fewn llai nag wyth awr. Nod y gyfres hon o dargedau yw sicrhau y gall cleifion gael gofal heb ei drefnu yn gyflym. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi y dylai sefydliadau'r GIG drin yr holl dargedau hyn yn gyfartal. Nodwyd tra bod llawer o staff o'r farn bod cyflwyno'r targed trosglwyddo wedi arwain at ganolbwyntio'n fwy ar amseroedd trosglwyddo o fewn eu sefydliad, roedd yn amlwg i rai staff gweithredol deimlo bod cyflawni'r targed trosglwyddo yn llai o flaenoriaeth i rai ymddiriedolaethau acíwt na chyflawni'r targed pedair ac wyth awr.

**2.3** Yn Fframwaith Gweithredu Blynyddol 2008-09 mae'r targed trosglwyddo yn nodi y cyflawnir y targed trosglwyddo 15 munud gan sefydliadau'r GIG. Felly nid cyfrifoldeb un sefydliad yw cyflawni'r targed, sy'n adlewyrchu natur systemataidd proses drosglwyddo effeithiol. Yn ystod ein gwaith maes gwelwyd tra bod sefydliadau'r GIG ymhob ardal wedi dechrau cydweithio i wella'r system gofal heb ei drefnu, ni fu digon o gyd-ganolbwyntio ar fesurau penodol i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion.

**2.4** Mae cydweithio drwy'r fframwaith Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys wedi canolbwyntio ar ddatblygiad strategol y system gofal heb ei drefnu gyfan[12]. Ac er bod y meddylfryd strategol hwn yn rhan hanfodol o wella gofal heb ei drefnu, nid yw'r trafodaethau hyn wedi canolbwyntio'n benodol ar achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion.

**2.5** Ers i'n gwaith maes gael ei gwblhau rhoddodd Prif Weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans, Alan Murray a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Paul Williams, dystiolaeth i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar 11 Mawrth 2009 a siaradwyd am gydfentrau a chydweithio sydd eisoes wedi gwella amseroedd gweithredu ambiwlansys yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi tynnu sylw at nifer o'r camau a gymerwyd yn ddiweddar ers cyfnod ein gwaith maes sydd wedi gwella'r sefyllfa'n sylweddol:

a mae rheoli perfformiad ychwanegol o'r mater hwn ar draws y GIG i fynd i'r afael ag amseroedd gormodol wrth drosglwyddo cleifion yn yr ysbytai sydd yn amlygu y problemau mwyaf arwyddocaol; rhoddwyd ffocws penodol ar ddatrys y problemau yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro;

b mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi rhoi £300,000 o gyllid sefydlog i'r ymddiriedolaeth ambiwlans i helpu gwella perfformiad yn erbyn targedau allweddol yng nghwarter olaf y flwyddyn ariannol 2008-09;

c sefydlwyd y Grwp Gorchwyl a Gorffen er mwyn edrych ar y materion a godwyd gan y Cyd-grwp Gwasanaethau Brys mewn perthynas â Gwasanaethau Brys arall yn cludo cleifion i ysbyty, arweiniodd hyn at argymhellion diweddar i wella perfformiad

12 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys: Dull Gweithredu Integredig ar gyfer Cyflenwi Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru, Chwefror 2008




ac i sicrhau trefniadau a phrotocolau gweithio fwy effeithiol rhwng y gwasanaethau achosion brys;

ch mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i'r ymddiriedolaeth ambiwlans ddatblygu Amlinelliad Achos Busnes ar gyfer ystafell rheoli ar y cyd yng Ngogledd Cymru, a fydd yn gwella cydweithredu a chynorthwyo mewn datblygu ymateb gwasanaethau achosion brys integredig gwell ar draws Cymru;

d mae Llywodraeth y Cynulliad yn adrodd y bu gwelliant mewn amseroedd ymateb ambiwlansys yn y misoedd diwethaf, sydd wedi gwella'n sylweddol i 65 y cant ym mis Mawrth a lleihad sylweddol mewn oedi gormodol wrth drosglwyddo cleifion yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a Chaerdydd a'r Fro.

**2.6** Gan gydnabod nad yw sefydliadau'r GIG wedi gwneud digon eto i ddatblygu dulliau ffurfiol o leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i bob ymddiriedolaeth acíwt gyflwyno cynlluniau gweithredu yn nodi sut yn union y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r agenda gofal heb ei drefnu, yn enwedig drwy leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi gofyn bod sefydliadau yn cyflwyno dau gynllun gweithredu gofal heb ei drefnu, un yn nodiystod o gamau gweithredol y gellid ei gymryd i gyflawni gwelliannau cyflym a chynaliadwy, a Chynllun Cyflenwi Lleol tymor hirach sydd yn ymestyn ar draws y cyfnod 2009-11 sydd yn gosod dull tymor canolig i newid yr holl system. Cyflwynwyd y cynlluniau gweithredu hyn ar ddiwedd mis Chwefror ac fe'u diweddarwyd a'u hailgyflwyno yn dilyn sylwadau cychwynnol gan Lywodraeth y Cynulliad.

**2.7** Er i ni weld cydberthnasau gwaith cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ysbytai rhwng yr ymddiriedolaeth ambiwlans a staff yr ymddiriedolaeth acíwt, nodwyd tensiynau mewn un ysbyty a oedd yn rhwystro cydweithio. Yn Ysbyty Maelor Wrecsam nodwyd bod y broses o weithredu'r targed trosglwyddo wedi niweidio cydberthnasau rhwng y ddau grŵp o staff. Ymddengys i hyn ddeillio o'r ffaith bod yr holl derfynellau data wedi'u lleoli er cyfleustra staff nyrsio heb ymgynghori â chriwiau ambiwlans; a staff nyrsio yn atgoffa criwiau i ddefnyddio'r terfynellau data gan roi'r argraff eu bod yn plismona perfformiad y criwiau ambiwlans. Bydd gweithio tuag at atebion ar y cyd i achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn yr ysbyty hwn yn anodd oni bai bod y tensiynau hyn yn cael eu lleddfu.

**Ymddengys fod staff yn gwbl ymrwymedig i wella'r broses o drosglwyddo cleifion ond mae'n rhaid i gyrff y GIG ennyn mwy o ymrwymiad i gofnodi data ac atal achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion rhag dod yn rhan dderbyniol o'r diwylliant gwaith**

**2.8** Roedd y mwyafrif helaeth o staff y gwnaethom siarad â hwy yn ystod ein gwaith maes yn ymddangos yn ymrwymedig ac yn deall pwysigrwydd trosglwyddo cleifion yn gyflym ac yn ddiogel. Dywedodd staff yn aml eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion ond roeddent yn teimlo'n rhwystredig bod materion y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol yn achosi amseroedd trosglwyddo gormodol.

2.9 Mae agweddau staff tuag at gofnodi amseroedd trosglwyddo yn rhwystr mawr i gofnodi a rheoli'r broses drosglwyddo yn gywir. Erbyn hyn mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi cyflwyno system wybodaeth a fydd yn galluogi rheolwyr llinell i fonitro cyfraddau cwblhau amseroedd trosglwyddo cleifion ar gyfer pob aelod unigol o staff. Er bod cyflwyno'r system hon yn gam cadarnhaol, ni fydd yn ennyn cefnogaeth i gofnodi data ynddi'i hun yn enwedig am nad oedd rhai aelodau o staff o’r farn mai hwy ddylai fod yn gyfrifol tra bod eraill yn gwrthwynebu’r hyn a oedd yn fonitro perfformiad yn ormodol yn eu barn hwy. Mynegodd eraill bryder hefyd ynghylch risgiau rheoli heintiau yn deillio o ddefnyddio sgrîn-gyffwrdd, yr aeth yr ymddiriedolaeth ambiwlans i’r afael ag ef drwy gaffael sgriniau gradd feddygol fel eu bod yn gwrthsefyll glanhau priodol. Mae angen i'r ymddiriedolaeth ambiwlans ac ymddiriedolaethau acíwt wneud mwy i gyfleu bwriad a manteision posibl y system fonitro yn effeithiol. Dylai'r sefydliadau hyn dynnu sylw at y ffaith y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio fel adnodd rheoli i leddfu'r pwysau ar adrannau achosion brys ysbytai drwy well cynllunio a chymorth wedi'i dargedu. Nodwyd nad oedd y mwyafrif helaeth o staff a oedd yn defnyddio'r terfynellau data wedi gweld unrhyw wybodaeth ddilynol am berfformiad. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion cofnodi.

2.10 Problem bosibl gydag achosion o oedi parhaol a chyson wrth drosglwyddo cleifion yw bod criwiau ambiwlans bellach yn disgwyl oedi hir o fewn adrannau achosion brys ysbytai. Mae angen i sefydliadau'r GIG weithredu'n gyflym i leihau amseroedd trosglwyddo i'r eithaf fel nad yw achosion o oedi yn dod yn rhan dderbyniol o'r diwylliant gwaith o fewn adrannau achosion brys ysbytai.

## Mae proses wael o ddarparu adnoddau mewn ysbytai sy'n ateb y galw pan fydd ar ei fwyaf yn ffactor pwysig wrth ystyried amseroedd trosglwyddo gormodol

### Mae rhai achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn digwydd o ganlyniad i broblemau staffio mewn adrannau achosion brys

2.11 Canolbwyntiodd ein hymweliadau gwaith maes ar safbwyntiau staff ac arsylwadau ynghylch y pwysau o fewn adrannau achosion brys ysbytai. Er i ni ofyn i staff am eu barn ar achosion amseroedd trosglwyddo gormodol, ni chynhaliwyd dadansoddiad manwl i ddilysu'r achosion hyn. Serch hynny, awgrymodd safbwyntiau staff fod achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion yn digwydd yn aml pan na fydd yr adnoddau o fewn yr adran achosion brys a'r amseroedd prysuraf o ran galw yn cyfateb. Roedd y problemau hyn o ran adnoddau yn cael eu cysylltu'n aml ag argaeledd staff neu welyau. Mae’r achosion yn fwy cymhleth na dim ond ymwneud â gallu ac adnoddau ac maent yn debygol o ddeillio o brosesau gwael, aneffeithlonrwydd a rheolaeth aneffeithiol.

### Prinder gwelyau cleifion mewnol oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros y ffaith nad oedd gwelyau ar gael mewn adrannau achosion brys

2.12 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan staff dros achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion oedd y ffaith bod yr adran achosion brys yn 'llawn'. O dan yr amgylchiadau hyn, defnyddir pob gwely yn yr adran achosion brys gan glaf. Felly rhaid i gleifion sy'n cyrraedd mewn ambiwlans aros am wely gwag cyn y gellir cwblhau'r broses




drosglwyddo. Gall yr adran achosion brys ddod yn llawn am fod cynnydd sydyn yn nifer y cleifion sy'n dod i'r adran, neu am fod problemau yn symud cleifion o'r adran achosion brys i ardaloedd eraill yn yr ysbyty neu am fod problemau wrth ryddhau cleifion adref o'r adran achosion brys.

**2.13** Mae problemau wrth 'ddrws ffrynt' unedau achosion brys yn adlewyrchu problemau llawer ehangach gyda'r system. Mae gallu ysbytai i dderbyn cleifion yn effeithlon wrth y 'drws ffrynt' yn adlewyrchu materion sy'n ymwneud â galw, llif cleifion, patrymau cael gafael ar wasanaethau a rheoli gwelyau drwy'r system gyfan. Tynnodd ein hadroddiad blaenorol ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal sylw at yr effeithiau niweidiol mawr y gall achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty eu cael ar gleifion unigol a gallu ymddiriedolaethau acíwt i ddarparu eu gwasanaethau[13]. Dangosodd ein hymweliadau diweddar ag adrannau achosion brys ysbytai fod problemau wrth reoli 'drws cefn' yr ysbyty (sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n effeithiol o welyau ysbytai) yn cael effaith fawr ar y 'drws ffrynt' (sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn gyflym yn yr ysbyty os oes angen triniaeth mewn ysbyty arnynt).

**2.14** Er na wnaethom gynnal dadansoddiad manwl o'r problemau y tu hwnt i adran achosion brys yr ysbyty, mynegodd rhai aelodau o staff farn a oedd yn cyd-fynd â'n gwaith blaenorol ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, sef nad oedd prosesau rheoli gwelyau yn ddigon effeithiol i sicrhau llif cleifion drwy'r ysbyty. Mewn rhai ysbytai dywedwyd wrthym fod diffyg cefnogaeth i adrannau achosion brys gan dimau wardiau cleifion mewnol yn oedi'r broses o symud cleifion o adrannau achosion brys i'r wardiau. Dywedwyd wrthym y gall fod oedi hir wrth aros i feddyg arbenigol cleifion mewnol ddod i'r adran achosion brys i glercio ac asesu cleifion a phroblemau yn dod o hyd i welyau cleifion mewnol am fod nifer fawr yn cael eu defnyddio. Felly mae'r oedi hwn yn atal gwelyau adrannau achosion brys rhag dod yn wag a gall arwain at oedi wrth drosglwyddo cleifion.

**2.15** Yn ogystal â chludo cleifion i adrannau achosion brys, mae ambiwlansys hefyd yn trosglwyddo cleifion i fannau gofal eraill, fel ysbytai cymunedol. Pan fydd oedi difrifol o ran amseroedd gweithredu ambiwlansys a bod amseroedd ymateb o dan bwysau, nid yw'n debygol y bydd ambiwlansys yn cyflawni dyletswyddau trosglwyddo cleifion. Mae hyn yn arwain at flocio symudiad cleifion o fewn y gwasanaeth iechyd ymhellach.

## Ni chaiff gwybodaeth am amseroedd trosglwyddo ei defnyddio'n effeithiol fel adnodd rheoli i asesu'r cydbwysedd rhwng gallu ac adnoddau a galw

**2.16** Drwy ddadansoddi data amseroedd trosglwyddo, dylai sefydliadau'r GIG allu amlygu'r amseroedd mwyaf cyffredin pan geir achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion ac felly lywio'r gwaith o gynllunio eu gwasanaethau a phennu adnoddau ar eu cyfer yn unol â hynny. Nodwyd bod y wybodaeth a gofnodir drwy'r terfynellau data newydd yn cael ei hanwybyddu ar y cyfan gan y rhai sy'n cynllunio gwasanaethau am fod y data yn anghyflawn ac yn anghyson.

**2.17** Yn gyffredinol nid oedd rheolwyr gwasanaethau ysbytai yn ymddiried yn y data o'r terfynellau eto am nad oedd yn gyflawn a hefyd am ei fod yn aml yn mynd yn groes i wybodaeth arall a gasglwyd am amseroedd trosglwyddo. Nodwyd mewn rhai adrannau achosion brys, fod staff yn cofnodi amseroedd trosglwyddo â llaw yn ogystal â defnyddio'r terfynellau data. Roedd y gwahaniaeth rhwng y data a gasglwyd â llaw a'r data o'r


13 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mynd i'r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn y system gyfan; Adroddiad trosolwg yn seiliedig ar waith yng nghymunedau iechyd a gofal cymdeithasol Caerdydd a'r Fro, Gwent a Sir Gaerfyrddin 2007

terfynellau yn sylweddol weithiau. Heb ddata cadarn ar amseroedd trosglwyddo, mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn dal i ddefnyddio data ar amseroedd gweithredu. Pan fydd data mwy cadarn ar amseroedd trosglwyddo ar gael, mae'n debygol y bydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn cael budd mawr o'r gallu i wahaniaethu rhwng achosion o oedi yn ymwneud â throsglwyddo cleifion ac amseroedd gweithredu ambiwlansys.

**2.18** Gwnaethom hefyd nodi problemau'n ymwneud â chywirdeb data o ran defnyddio'r terfynellau data. Er mwyn sicrhau mai dim ond aelodau awdurdodedig o staff sy'n defnyddio'r terfynellau data, caiff pob aelod o staff rif adnabod personol. Fodd bynnag, dengys Ffigur 16 fod y rhif hwn yn cael ei arddangos ar y derfynell data ar ffurf sticer yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Ceir problemau penodol o ran rhifau adnabod criwiau ambiwlans a drosglwyddwyd i'r ymddiriedolaeth ambiwlans. Os yw'r rhif adnabod ar gyfer y derfynell data yn hawdd ei weld, mae perygl y gallai defnyddwyr heb awdurdod weithredu'r sgriniau ac o bosibl amharu ar y broses o gofnodi data a niweidio ymhellach gywirdeb y wybodaeth hon.

**2.19** Mae'r terfynellau data yn anfon adroddiadau ar berfformiad a gynhyrchir yn awtomatig i reolwyr gwasanaethau ysbytai bob dydd. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi perfformiad y diwrnod blaenorol yn erbyn y targed o 15 munud. Fodd bynnag, caiff yr adroddiadau hyn eu hanwybyddu ar y cyfan am nad ymddiriedir yn y data yn gyffredinol ond hefyd am i rai rheolwyr ddweud wrthym nad ydynt yn deall y ffordd y cyflwynir y data yn yr adroddiadau.

**Ffigur 16 - Roedd rhif adnabod personol y system i'w weld yn glir ar ffurf sticer ar un sgrîn yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Tachwedd 2008*

## Bydd angen gweithredu drwy'r system gyfan o ofal heb ei drefnu i fynd i'r afael â'r achosion o gam-gyfateb gallu ac adnoddau i'r galw

**2.20** Mae'r broblem o ran gallu ac adnoddau a galw nad ydynt yn cyfateb yn un sylfaenol sy'n wynebu'r system gofal heb ei drefnu yng Nghymru. Bydd ein hadroddiad ar y system gyfan o ofal heb ei drefnu yn edrych yn fanylach ar y materion hyn ond o'r gwaith rydym wedi ei wneud eisoes mae'n amlwg bod y materion sy'n ymwneud â gallu ac adnoddau a galw yn gymhleth. Dengys Blwch 5 rai o'r materion hyn sy'n ymwneud â'r system gyfan y dywedodd staff y GIG eu bod yn effeithio ar allu ac adnoddau a galw.




Blwch 5 - Rhai enghreifftiau nodweddiadol o safbwyntiau staff y GIG ynghylch y problemau drwy'r system gyfan o ofal heb ei drefnu

- **a** Mae rhai aelodau o staff o’r farn bod y cyhoedd yn ansicr ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael, sut y dylent gael gafael arnynt a defnydd anaddas o ambiwlansys.
- **b** Cafwyd pryderon ynghylch yr anawsterau i gael meddygon teulu i ymweld â’r cartref y tu allan i oriau.
- **c** Dywedwyd wrthym am bobl yn mynd i adrannau achosion brys pan allai fod yn fwy priodol gofalu amdanynt mewn lleoliad gofal amgen.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**2.21** Drwy'r fframwaith Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys, mae gwaith yn mynd rhagddo ledled Cymru i wella modelau gwasanaethau gofal heb ei drefnu a ddarperir ymhob cymuned iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y strategaeth hon mae gweithredu ar sail system gyfan yn hanfodol i wella gofal heb ei drefnu yng Nghymru. Felly, bydd angen i sefydliadau'r GIG ystyried sut y bydd y newidiadau arfaethedig i'r model o ofal heb ei drefnu yn effeithio ar y galw am eu gwasanaethau yn hytrach na gwneud penderfyniadau annibynnol ar ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ambiwlans neu adrannau achosion brys. Byddwn yn edrych yn agosach ar yr hyn a wneir yng Nghymru yn ein hadroddiad trosolwg ar systemau cyfan.

## Mae'r prosesau sy'n nodi sut y dylid trosglwyddo cleifion yn amrywio'n fawr ledled Cymru a phrin yw'r achosion o rannu gwersi neu arferion arloesol

### Byddai gwell cyfathrebu rhwng ysbytai a'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn helpu adrannau achosion brys i ymbaratoi'n well ar gyfer claf

**2.22** Yn ystod ein gwaith maes nodwyd llawer o agweddau cadarnhaol ar y broses o drosglwyddo cleifion o griwiau ambiwlans i staff ysbyty. Rydym wedi dwyn ynghyd yr agweddau hyn ar ffurf rhestr wirio yn Atodiad 2. Wrth ddatblygu’r rhestr wirio, rydym hefyd wedi ystyried y gwaith a wnaed gan sefydliadau eraill ar y broses drosglwyddo, er enghraifft, canllaw mis Hydref 2008 ar sicrhau proses drosglwyddo amserol a luniwyd gan NHS South West yn Lloegr[14]. Er y gall llawer o'r materion a gynhwysir yn ein rhestr wirio ymddangos yn syml, gwelsom nad oedd llawer o brosesau syml yn cael eu cyflawni'n briodol ledled Cymru.

**2.23** Un maes lle ceir gwendid penodol yw'r cyfathrebu rhwng ysbytai, canolfannau rheoli ambiwlansys a chriwiau ambiwlans. Dywedwyd wrthym am sawl achlysur pan arweiniodd diffyg eglurder mewn cyfathrebu rhwng y partïon at gludo cleifion mewn ambiwlans i'r man anghywir yn yr ysbyty. Roedd un enghraifft yn cynnwys canolfan reoli yn dweud wrth y criw fynd â chlaf i adran derbyniadau meddygol yr ysbyty ond pan gyrhaeddodd y criw, roedd yr adran hon yn llawn ac yna bu'n rhaid mynd â'r claf i'r adran achosion brys. Mae diffyg cyfathrebu o'r fath yn arwain at wastraffu amser ac ymdrech, yn peri rhwystredigaeth i staff rheng flaen, yn ogystal â pheri mwy o ofid ac anghysur i gleifion sy'n profi rhagor o oedi cyn cael y gofal a'r sylw sydd eu hangen arnynt.

14 NHS South West, Ensuring timely handover of patient care – ambulance to hospital, Hydref 2008.

**2.24** Mae angen gwell cyfathrebu rhwng y ganolfan reoli ac adrannau achosion brys ysbytai pan gaiff claf sy'n ddifrifol wael ei gludo mewn ambiwlans. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd brotocolau lleol a ddylai arwain at y ganolfan reoli yn ffonio'r adran achosion brys ar linell ffôn benodol pan fydd claf sy'n ddifrifol wael yn cael ei gludo i'r adran mewn ambiwlans. Fodd bynnag, dywedodd nifer fach o griwiau ambiwlans wrthym nad oedd adrannau achosion brys bob amser yn cael eu rhybuddio ymlaen llaw ac nad oeddent wedi ymbaratoi ar gyfer cleifion sy'n ddifrifol wael.

**2.25** Yn Ysbyty Bronglais dywedwyd wrthym pan fydd rhai criwiau yn dod â chlaf sy'n ddifrifol wael i'r ysbyty maent yn defnyddio ffonau symudol i rybuddio staff yr adran achosion brys yn uniongyrchol. Tra y gwneir hyn yn aml oherwydd problemau cyfathrebu gyda system radio'r ymddiriedolaeth ambiwlans, dywedodd rhai staff wrthym fod i'r cyfathrebu uniongyrchol hwn fanteision o ran sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir.

**2.26** Mae'r terfynellau data yn rhoi gwybodaeth i ysbytai am nifer y cleifion sy'n cael eu cludo i'r adran achosion brys. Dylai staff ysbyty allu defnyddio'r wybodaeth hon fel rhybudd ymlaen llaw o fwy o bwysau yn yr adran achosion brys a'r angen i ryddhau gwelyau yn yr adran ac ar y wardiau. Fodd bynnag, prin yw nifer y staff mewn adrannau achosion brys sy'n defnyddio'r wybodaeth hon am nad ydynt yn deall y wybodaeth neu am eu bod yn credu ei bod yn anghywir. Dywedwyd wrthym fod y system yn rhoi gwybodaeth anghywir yn aml am y cyrchysbyty i rai criwiau ambiwlans. A nodwyd er y gall y derfynell ddata fod yn rhybuddio am nifer fawr o ambiwlansys a ddisgwylir mewn ysbyty penodol ar unrhyw un adeg, nid yw llawer o'r ambiwlansys hyn yn cyrraedd.

**2.27** Rhydd y terfynellau data rywfaint o wybodaeth gyfyngedig am gyflwr clinigol y cleifion a gaiff eu cludo i'r ysbyty. Pan fydd y claf yn ddifrifol wael, mae criwiau ambiwlans yn anfon gwybodaeth hanfodol am gyflwr clinigol y claf a'r amgylchiadau i'r sgriniau, drwy'r ganolfan reoli. Gall y wybodaeth ASHICE hon roi rhybudd pwysig ymlaen llaw i'r adran achosion brys o'r gofal brys y mae'r claf yn debygol o fod ei angen[15]. Gall y terfynellau data ddangos y wybodaeth ASHICE hon ond nodwyd bod llawer o'r staff mewn ysbyty yn ansicr ynghylch ei diben ac nid oedd yn ymddangos bod y cyfleuster hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Hyd yn oed pan nad yw cleifion yn ddifrifol wael, mae'r sgriniau yn aml yn dangos gwybodaeth glinigol gyfyngedig sydd wedi'i chodio fel na chaiff gwybodaeth breifat am gyflwr cleifion ei harddangos ar y sgriniau cyrraedd mewn ardaloedd lled-gyhoeddus. Nodwyd er i lawer o staff adrannau achosion brys ddweud ei bod yn syniad da rhoi'r fath wybodaeth drwy'r sgrîn ddata, nid oeddent yn deall y system godio yn aml.

## Byddai safoni'r prosesau yn well rhwng ymddiriedolaethau acíwt yn atal y problemau sydd weithiau'n codi pan fydd criwiau ambiwlans yn cyrraedd ysbytai anghyfarwydd

**2.28** Tynnodd ein hymweliadau sylw at y nifer fawr o wahaniaethau sy'n bodoli o fewn y prosesau trosglwyddo mewn ysbytai gwahanol yng Nghymru. Mae criwiau ambiwlans yn dueddol o gludo'r rhan fwyaf o'u cleifion i nifer fach o ysbytai ond weithiau efallai y bydd angen iddynt fynd i ysbytai sy'n anghyfarwydd. Nodwyd pan fydd hyn yn digwydd, gall criwiau fod yn ansicr ynghylch y gweithdrefnau a'r protocolau lleol. Gall y fath ansicrwydd gynnwys:

15 Mae ASHICE yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o drosglwyddo gwybodaeth am glaf i'r ysbyty neu'r clinigydd sy'n ei dderbyn. Ystyr ASHICE yw oedran, rhyw, hanes, anafiadau/salwch, cyflwr ac ETA (amser cyrraedd bras).




**Ffigur 17 - Mae'r poster hwn yn Ysbyty Treforys yn rhoi gwybod i griwiau sut i hysbysu'r staff nyrsio pan fyddant wedi cyrraedd**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Treforys, Rhagfyr 2008*

**a** a ddylid cludo'r claf i mewn i'r adran achosion brys heb roi gwybod i staff yr ysbyty eu bod wedi cyrraedd yn gyntaf;

**b** sut i hysbysu staff eu bod wedi cyrraedd;

**c** pa aelodau o staff y dylid eu hysbysu;

**ch** ymhle i aros gyda'r claf cyn iddo gael ei frysbennu.

**2.29** Roedd tri ysbyty y gwnaethom ymweld â hwy wedi ceisio goresgyn y problemau hyn drwy ddefnyddio posteri neu arwyddion i ddweud wrth griwiau ambiwlans ble i aros, pwy i'w hysbysu ar ôl cyrraedd neu sut i gael sylw staff nyrsio ar ôl cyrraedd (gweler Ffigurau 17 a 18 isod).

**Ffigur 18 - Mae'r bwrdd gwyn hwn yn Ysbyty Treforys yn arddangos enw'r nyrs frysbennu ar gyfer ambiwlansys er mwyn helpu i gyfathrebu â chriwiau ambiwlans**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ysbyty Treforys, Rhagfyr 2008*

## Weithiau bydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn defnyddio swyddogion i ofalu am gleifion yn yr ysbyty er mwyn rhyddhau sawl criw ond ni wneir hyn yn gyson am resymau sy'n cynnwys cyfyngiadau ariannol ac argaeledd staff

**2.30** Weithiau bydd criwiau ambiwlans yn rhoi claf yng ngofal swyddog ambiwlans. Dim ond pan fydd pwysau aruthrol yn yr adran achosion brys y mae hyn yn dueddol o ddigwydd. Yn ystod ein gwaith maes dywedwyd wrthym fod swyddogion yn dueddol o gael eu defnyddio yn y ffordd hon bob dydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Athrofaol Cymru ond mae'n digwydd yn llai aml o lawer mewn ysbytai eraill.

2.31 Mae defnyddio swyddogion ambiwlans i fod yn gyfrifol am ofal cleifion mewn adrannau achosion brys yn cynrychioli'r galw a grëwyd gan fethiant y system gyffredinol. Mae defnyddio swyddogion yn y fath fodd yn ymgais gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion heb fynd i'r afael ag achosion yr oedi hwn yn uniongyrchol. Amcangyfrifa'r ymddiriedolaeth ambiwlans fod costau blynyddol yr arfer hwn yn fwy na £330,000. Yn ogystal â'r costau uniongyrchol i'r ymddiriedolaeth ambiwlans, ceir costau cyfle sylweddol hefyd o ystyried yr hir angen arwyddocaol i wella prosesau arwain a rheoli o fewn yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'r pwysau o ran gallu ac adnoddau rheoli. Mae'r costau cyfle hyn yn ymwneud â datblygu a gwella'r sefydliad ond maent hefyd yn ymwneud â datblygu a gwella'r system gofal heb ei drefnu yn ehangach. Tra bod uwch reolwyr yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn gweithio fel adnodd gweithredol ychwanegol mewn adrannau achosion brys, ni allant weithio ar atebion cynaliadwy drwy'r system gyfan a allai atal oedi diangen yn y tymor hwy.

2.32 Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod pan fo cymaint o wahaniaeth o ran amseroedd trosglwyddo hir, sy'n cael effaith fawr ar berfformiad sy'n glinigol effeithiol, mae'n gwneud synnwyr i'r ymddiriedolaeth ambiwlans ddefnyddio rheolwyr yn y ffordd hon er mwyn rhyddhau ei chriwiau ambiwlans. Fodd bynnag, gall fod yn niweidiol i'r claf oherwydd caiff y cyfrifoldeb am ei les ei drosglwyddo o'r criw ambiwlans i'r swyddog ambiwlans ac yna o'r swyddog i staff yr ysbyty. Mae'r cam ychwanegol hwn yn y broses drosglwyddo yn peri'r risg o golli gwybodaeth glinigol bwysig. Pan wneir hyn, dylai'r gwasanaeth ambiwlans gofnodi'r amser ychwanegol y mae'r swyddog ambiwlans yn gofalu am y cleifion unwaith y bydd y criwiau wedi gweithredu.

**Mae'r rhan fwyaf o achosion o drosglwyddo ar lafar yn cael budd o gydberthnasau cadarnhaol rhwng criwiau a staff ysbyty ond mae rhai aelodau o staff yn methu â chydnabod y claf yn ystod y broses hon**

2.33 Mae dogfen diweddar Llywodraeth y Cynulliad sef Cynllun i Wireddu ein Potensial[16] yn datgan y dylai gofal fod yn seiliedig ar 'egwyddorion sy'n canolbwyntio ar hawliau unigol o ran parch, lles, dewis, ymddiriedaeth ac urddas, gan mai'r rhain yw'r pethau sy'n wirioneddol bwysig i gleifion neu gleientiaid ac sy'n pennu eu profiadau o ran gofal, waeth beth fo'r canlyniad'.

2.34 Roedd y rhan fwyaf o achosion o drosglwyddo cleifion a welwyd gennym yn cynnwys cyfathrebu clir, cydberthnasau cadarnhaol rhwng staff a'r parch mwyaf tuag at y claf. Gwelsom ambell enghraifft o nyrsys brysbennu yn cyfarch criwiau ambiwlans yn ystod y broses drosglwyddo ond yn methu â chyfarch y claf yn uniongyrchol. A gwelsom enghreifftiau lle y siaradwyd am y claf ond ni siaradwyd ag ef yn ystod y drafodaeth drosglwyddo rhwng criwiau ambiwlans a staff yr ysbyty. Nid yw bob amser yn bosibl cynnwys y claf mewn trafodaethau trosglwyddo oherwydd ei gyflwr ond gall teimladau a safbwyntiau'r claf fod yn hanfodol er mwyn gwneud y diagnosis mwyaf priodol a rhoi'r driniaeth fwyaf priodol.

16 Cynllun i Wireddu ein Potensial - datganiad am 'Gredoau a Chamau Gweithredu' i Nyrsys, Bydwragedd a Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol yng Nghymru ar gyfer 2008 a Thu Hwnt, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2008




### Gall problemau gydag argaeledd rhai eitemau o stoc rwystro criwiau ambiwlans rhag dychwelyd i'r ffordd cyn gynted â phosibl ar ôl trosglwyddo'r claf

**2.35** Unwaith y bydd criw ambiwlans wedi rhoi eu claf yng ngofal staff yr ysbyty, mae targed gweithredu'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn caniatáu pum munud i'r criw ymbaratoi eu hunain a'u cerbyd i ddychwelyd i'r ffordd. Yn ystod yr amser hwn, rhaid i'r criw ambiwlans lanhau eu troli a'u cyfarpar ac ailgyflenwi eu cerbyd gydag unrhyw gyfarpar, dillad gwely neu feddyginiaeth a ddefnyddiwyd ganddynt.

**2.36** Pan fydd angen rhagor o feddyginiaeth ar griwiau, maent yn profi oedi weithiau wrth aros am nyrs i ddod ar gael a all agor storfa meddyginiaeth yr adran achosion brys. Gall rhai criwiau hefyd brofi oedi wrth chwilio am gefnfyrddau, bresau neu ddillad gwely yn lle'r hyn a ddefnyddiwyd. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i griwiau gerdded o amgylch yr adrannau achosion brys weithiau i geisio dod o hyd i eitemau ac ar adegau rhaid iddynt fynd yn ôl ar y ffordd hebddynt. Mae Blwch 6 yn crynhoi rhai o safbwyntiau'r criwiau ar y targed gweithredu ac ailgyflenwi cerbydau.

#### Blwch 6 - Mae sawl aelod o griwiau ambiwlans o'r farn bod angen mwy o amser arnynt i ymbaratoi er mwyn ymateb i'r alwad nesaf

- **a** Roedd rhai criwiau o’r farn bod yr amseroedd targed ar gyfer trosglwyddo cleifion a gweithredu ambiwlansys yn afrealistig.
- **b** Gall y broses o ailgyflenwi ambiwlansys â chyfarpar a chyffuriau newydd gymryd amser hir, yn ôl rhai criwiau.
- **c** Roedd rhai aelodau o staff o’r farn y dylai fod mwy o hyblygrwydd o fewn y targedau i alluogi criwiau i gael hoe rhwng galwadau.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

# Atodiad 1 – Methodoleg

## Ymweliadau gwaith maes

1 Rhwng 28 Hydref 2008 a 17 Rhagfyr 2008 ymwelwyd â'r adrannau achosion brys a restrir yn y tabl isod. Lle bynnag y bo'n bosibl ymwelwyd â phob adran ddwywaith. Cynhaliwyd y ddau ymweliad hyn ar adegau gwahanol o'r dydd er mwyn rhoi dealltwriaeth ehangach i ni o'r materion a all godi mewn adrannau achosion brys ar adegau gwahanol. Cynhaliwyd un ymweliad rhwng 11am ac 1pm a chynhaliwyd y llall rhwng 4pm a 6pm.

| Ymddiriedolaeth acíwt | Adran achosion brys | Nifer yr ymweliadau |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Ysbyty Treforys | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Ysbyty Tywysoges Cymru | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro | Ysbyty Athrofaol Cymru | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf | Ysbyty'r Tywysog Siarl | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | Ysbyty'r Glowyr Caerffili | 1 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | Ysbyty Neuadd Nevill | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | Ysbyty Brenhinol Gwent | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda | Ysbyty Bronglais | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda | Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda | Ysbyty Llwynhelyg | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | Ysbyty Glan Clwyd | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | Ysbyty Maelor Wrecsam | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | Ysbyty Gwynedd | 2 |




2 Siaradwyd â'r rheolwr gweithredol a oedd yn gyfrifol am yr adran achosion brys ar adeg ein hymweliad, sef y brif nyrs neu'r nyrs gyfrifol fel arfer. Siaradwyd hefyd â nyrsys a oedd yn ymwneud â'r broses drosglwyddo, criwiau ambiwlans a lle y bo'n briodol, y swyddog cyswllt ambiwlans.

3 Cadwyd ein cyfweliadau mor fyr â phosibl er mwyn osgoi cael unrhyw effaith ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'r ysbyty. Ar ddechrau pob cyfweliad nodwyd yn glir pe byddai angen yr aelod o staff rywle arall na ddylai ein cyfweliad beri unrhyw oedi.

## Cyfweliadau canolog

4 Fel rhan o'r broses o bennu cwmpas yr adroddiad hwn, ei sefydlu a'i lunio rydym wedi cyfweld ag aelodau allweddol o staff o'r sefydliadau canlynol:

- a Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- b Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Arfer da

5 Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio i ymddiriedolaethau acíwt ei chwblhau er mwyn gwella'r broses drosglwyddo yn seiliedig ar arferion diddorol neu arloesol a welwyd gennym. Caiff y rhestr wirio hon ei rhoi ar wefan Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (http://www.wao.gov.uk/goodpracticeexchange.asp).

# Atodiad 2 - Rhestr Wirio Trosglwyddo Cleifion

## Trosglwyddo Cleifion - Canllaw Arfer da Rhestr Wirio Hunanasesu

### Cyflwyniad

1 Bwriedir i'r rhestr wirio hon fod yn adnodd syml sy'n helpu i wella'r broses o drosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai. Ymddengys fod llawer o'r materion a gynhwysir yn y rhestr wirio yn sylfaenol iawn ond rydym wedi tynnu sylw atynt oherwydd yn ystod ein hymweliadau gwaith maes gwelsom arferion da a drwg mewn perthynas â'r holl faterion hyn.

2 Awgrymwn fod yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'r staff ymhob adran achosion brys yn gweithio drwy'r rhestr wirio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gall meysydd i'w gwella gael eu nodi ac y gellir ymdrin â hwy.

Rhennir yr hunanasesiad yn dair adran allweddol fel a ganlyn:

1 cyn i ambiwlans gyrraedd ysbyty (1-6);

2 pan fydd y criw ambiwlans yn cyrraedd yr adran achosion brys (7-9);

3 yn ystod y broses o drosglwyddo claf ar lafar (10-12).

Mae angen nodi cytuno neu anghytuno ar gyfer rhai o'r datganiadau. Mae eraill yn seiliedig ar raddfa pedwar pwynt sy'n ystyried i ba raddau y mae'r awdurdod yn cydymffurfio â'r arfer da a ddisgrifir:

1 = Ddim o gwbl

2 = Rhywfaint o gynnydd cyfyngedig

3 = Yn cydymffurfio ar y cyfan ond rhai bylchau o hyd

4 = Yn cydymffurfio'n llawn

| Rhif | Datganiad | Cytuno | Anghytuno | Hunanasesiad | | | | Gwelliant | Unigolyn neu sefydliad cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | | | |
| **Cyn i ambiwlans gyrraedd ysbyty** | | | | | | | | | | |
| 1 | Dylai staff adrannau achosion brys ddefnyddio'r terfynellau data fel ffynhonnell wybodaeth i sicrhau eu bod wedi ymbaratoi'n llawn pan fydd cleifion yn cyrraedd mewn ambiwlans. Dylai staff ddeall y gwahaniaeth rhwng ambiwlansys sy'n 'ddisgwyliedig' a'r rhai sydd 'ar y ffordd' ac y gall hyn newid am fod ambiwlansys yn peidio â gorfod ymateb i ddigwyddiadau neu eu bod yn cael eu hanfon i ysbytai amgen. | | | | | | | | | |
| 2 | Pan ddisgwylir cleifion a gaiff eu cludo mewn ambiwlans gan ysbyty, dylai staff yr adran achosion brys, lle y bo'n bosibl, ymbaratoi'r adran i dderbyn y claf. Gallai hyn gynnwys rhybuddio'r tîm dadebru neu gymryd camau galw cynyddol er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau gwelyau yn yr adran achosion brys. | | | | | | | | | |
| 3 | Os na fydd terfynell data yn gweithio, dylai staff y GIG gymryd y camau adferol priodol, p'un a yw'n golygu ailddechrau'r derfynell data ei hun, neu hysbysu tîm TG yr ymddiriedolaeth acíwt neu dîm cymorth canolog yr ymddiriedolaeth ambiwlans o'r broblem. Dylai'r wybodaeth briodol am ymdrin â phroblemau a manylion cyswllt cymorth gael eu harddangos wrth ochr pob terfynell data. | | | | | | | | | |



| Rhif | Datganiad | Cytuno | Anghytuno | Hunanasesiad | | | | Gwelliant | Unigolyn neu sefydliad cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | | | |
| 4 | Dylai'r ganolfan reoli ffonio'r adran achosion brys, yn ddelfrydol drwy ddefnyddio llinell ffôn ar wahân, er mwyn ei rhybuddio bod cleifion sy'n ddifrifol wael ar eu ffordd i'r ysbyty. | | | | | | | | | |
| 5 | Dylai'r ganolfan reoli ddefnyddio'r data amser real ar amseroedd trosglwyddo cleifion i hysbysu criwiau ambiwlans o'r oedi cyfredol mewn ysbytai gyda'r bwriad o'u hanfon i ysbytai amgen pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. | | | | | | | | | |
| 6 | Pan fydd adrannau achosion brys yn llawn a phan fydd staff yr adran yn gofyn i gleifion mewn ambiwlansys aros yn y cerbyd yn hytrach na dod i mewn i goridorau'r adran, dylai'r adran roi'r wybodaeth hon i'r ganolfan reoli a ddylai ei rhoi i'r criwiau. Bydd hyn yn osgoi symud y claf yn ddiangen. | | | | | | | | | |
| **Pan fydd y criw ambiwlans yn cyrraedd yr adran achosion brys** | | | | | | | | | | |
| 7 | O fewn yr adran achosion brys dylid arddangos posteri wrth y fynedfa i adrannau achosion brys a ddefnyddir gan griwiau ambiwlans sy'n cyrraedd yn nodi'r protocolau a'r gweithdrefnau lleol o ran trosglwyddo cleifion. Bydd hyn yn sicrhau bod pob criw ambiwlans yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddo a'r hyn y gall ei ddisgwyl gan staff yr adran. | | | | | | | | | |

| Rhif | Datganiad | Cytuno | Anghytuno | Hunanasesiad | | | | Gwelliant | Unigolyn neu sefydliad cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | | | |
| 8 | Mae angen i'r protocolau lleol fod yn glir ynghylch y ffordd fwyaf priodol y dylai criwiau ambiwlans ddatgan eu bod wedi cyrraedd yr adran, er enghraifft drwy wasgu botwm sy'n canu er mwyn hysbysu'r staff nyrsio bod claf wedi cyrraedd. | | | | | | | | | |
| 9 | Dylai fod gan bob adran achosion brys aelod penodedig o staff sy'n gyfrifol am drosglwyddo cleifion a brysbennu cleifion a gaiff eu cludo mewn ambiwlans. Pan fydd lefelau staffio yn caniatáu, dylai hon fod yn rôl ar wahân i frysbennu cleifion sy'n dod i'r adran ar eu liwt eu hunain. | | | | | | | | | |
| **Yn ystod y broses o drosglwyddo claf ar lafar** | | | | | | | | | | |
| 10 | Ar ddechrau'r broses o drosglwyddo claf ar lafar, dylai'r aelod perthnasol o staff o fewn yr adran achosion brys gydnabod y claf a'i gyfarch. Dylid gofyn am farn y claf, lle bynnag y bo'n bosibl, drwy gydol y broses o'i drosglwyddo ar lafar. | | | | | | | | | |



| Rhif | Datganiad | Cytuno | Anghytuno | Hunanasesiad | | | | Gwelliant | Unigolyn neu sefydliad cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | | | |
| 11 | Mae'r wybodaeth a roddir yn ystod y broses o drosglwyddo claf ar lafar yn hanfodol i ddiogelwch cleifion. Yn ystod y broses hon, dylid canolbwyntio'n llawn ar y wybodaeth glinigol yn hytrach na materion rheoli gwelyau. Pan fydd problemau lleol yn bodoli o ran effeithiolrwydd y broses o drosglwyddo cleifion ar lafar, dylai sefydliadau'r GIG ystyried rhoi hyfforddiant penodol ar dechnegau cyfathrebu, er enghraifft techneg o'r enw SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhellion) sy'n hawdd ei gofio ac a ddefnyddir i lunio sgyrsiau, yn enwedig rhai critigol, lle mae angen i glinigydd dalu sylw ar unwaith a gweithredu'n syth. | | | | | | | | | |
| 12 | Ni ddylai'r claf gael ei adael ar ei ben ei hun yn ystod y broses o'i drosglwyddo. Os disgwylir oedi yn ystod y broses hon, dylai pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r broses a'r claf fod yn gwbl glir o ran y rhesymau amdano. | | | | | | | | | |




# Atodiad 3 - Data lefel Ymddiriedolaeth

Lluniwyd tri graff ar gyfer pob ysbyty yng Nghymru sydd ag adran damweiniau ac achosion brys mawr.

Mae'r graff cyntaf yn dangos faint o amser a gymerwyd i weithredu ambiwlansys ymhob ysbyty yn 2008. Cafodd y data a ddefnyddiwyd i lunio'r graff hwn ei roi gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans.

Mae'r ail graff yn dangos y nifer wythnosol gyfartalog o gleifion ymhob mis a aeth i adran damweiniau ac achosion brys yr ysbyty. Mae'r dadansoddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 24 mis rhwng mis Ionawr 2007 a mis Rhagfyr 2008. Dengys y galw am wasanaethau'r adran damweiniau ac achosion brys. Cafodd y data a ddefnyddiwyd i lunio'r graff hwn ei roi gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r trydydd graff yn y gyfres yn cymharu tueddiadau o ran:


**a** y nifer wythnosol gyfartalog o gleifion a gludwyd i'r ysbyty gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans;

**b** nifer yr oriau coll gan griwiau ambiwlans y tu hwnt i 20 munud yn yr ysbyty hwnnw.

Cafodd y data a ddefnyddiwyd i lunio'r graff hwn ei roi gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans.


## Rhanbarth De-ddwyrain Cymru
## Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd

### Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*

## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Neuadd Nevill, Y Fenni

## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori ‘A’ a ‘B’ ac helaethrwydd yr oedi yn 2008





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu’r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*


### Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Brenhinol Gwent, Casnewydd


### Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*


## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Brenhinol Morgannwg, Llantrisaint

### Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*





## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr

## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*

## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*




## Canolbarth a Gorllewin Cymru


## Ysbyty Cyffredinol Bronglais

### Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

### Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*


## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

# Ysbyty Treforys, Abertawe


## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*


## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Ysbyty Tywysog Siarl, Merthyr Tudful

### Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*SFfynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*





## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin

## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*

## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Ysbyty Cyffredinol Llwyn Helyg, Hwlffordd

## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*

### Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

# Rhanbarth Gogledd Cymru

# Ysbyty Maelor Wrecsam, Wrecsam


### Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*


## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Ysbyty Glan Clwyd, Sir Ddinbych

## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*





## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Ysbyty Gwynedd, Bangor

## Nifer o weithredu ambiwlansys am achosion Categori 'A' a 'B' ac helaethrwydd yr oedi yn 2008





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Y nifer gyfartalog o gleifion sydd yn mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys bob wythnos




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth y Cynulliad*

## Dadansoddiad tuedd y nifer gyfartalog o gleifion a gludwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac oriau ambiwlans a gollwyd yn yr adran damweiniau ac achosion brys




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*




# Atodiad 4 - Gweithgarwch a pherfformiad o fewn ardaloedd awdurdodau unedol/byrddau iechyd lleol

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi prif weithgareddau a pherfformiadau gwybodaeth ynghylch achosion brys ym mhob awdurdod unedol/ardal bwrdd iechyd lleol. Rydym wedi defnyddio data gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans i gyflwyno tri graff ar gyfer pob ardal.


Mae'r graff cyntaf yn dangos tueddiadau misol yn amseroedd ymateb yr ymddiriedolaeth ambiwlans ar gyfer achosion Categori 'A'. Mae'n dangos y canran o achosion Categori 'A' bod yr ymddiriedolaeth ambiwlans wedi ymateb o fewn wyth munud. Mae Fframwaith Gweithredu Blynyddol Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys targed sy'n gofyn i'r ymddiriedolaeth ambiwlans i ddarparu ymateb cyntaf i o leiaf 60 y cant o'r galwadau hyn o fewn wyth munud, ym mhob awdurdod unedol/bwrdd iechyd lleol.

Mae'r ail graff yn rhoi mynegiant o lwyth gwaith yr ymddiriedolaeth ambiwlans ym mhob awdurdod unedol/ardal bwrdd iechyd lleol. Mae'r graff yn dangos nifer o ymatebion y mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi ei gwneud i achosion brys ym mhob ardal. Mae'r graff hefyd yn dangos y nifer cyfartalog o ymatebion yng Nghymru ar gyfer pob mis ynghyd â'r nifer uchaf ac isaf o ymatebion mewn unrhyw ardal yng Nghymru pob mis.

Mae'r trydydd graff yn dangos swm amser y mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn ei gymryd i anfon ac ymateb i achosion brys. Gall rheolaeth ambiwlans ond neilltuo ymateb i argyfwng unwaith y mae'r galwr 999 wedi darparu tri darn o wybodaeth hanfodol- enw'r galwr, lleoliad yr argyfwng a natur yr argyfwng. 'Gwirio galwad' yw'r enw a roddir ar y wybodaeth yma. Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans wedi gosod targed mewnol i ddyrannu ymateb o fewn 30 eiliad o gadarnhau galwad. Mae'r graff yn dangos cyfartaledd misol yr amser a gymerwyd rhwng cadarnhau'r alwad a dyrannu'r ymateb. Mae'r graff yn dangos y gwerth uchaf ac isaf mewn unrhyw awdurdod unedol/ardal bwrdd iechyd lleol bob mis. Canfyddom, yn ystod misoedd penodol, mewn ardaloedd penodol, i'r rheolaeth ambiwlans gwynebu problemau sylweddol mewn dyrannu ymatebion i argyfyngiadau. Trafodwyd y problemau hyn ymhellach ym mharagraff 1.10 i 1.14.


# Ynys Môn

## Canran o achosion Categori ‘A’ sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori ‘A’




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Blaenau Gwent

### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Pen-y-bont ar Ogwr

## Canran o achosion Categori A sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Caerffili

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Nifer o ymatebion i achos brys





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

# Caerdydd


### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Sir Gaerfyrddin

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Ceredigion

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Conwy

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Sir Ddinbych


### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Sir y Fflint

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





### Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Gwynedd

### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Merthyr Tudful

## Canran o achosion Categori ‘A’ sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori ‘A’




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Sir Fynwy


### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Castell-nedd Port Talbot

### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Casnewydd

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Sir Benfro

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

# Powys


### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori ‘A’




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori ‘A’




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata’r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Rhondda Cynon Taf

### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


### Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





### Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Abertawe

### Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





# Tor-faen

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

# Bro Morgannwg


## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*





## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


# Wrecsam

## Canran o achosion Categori 'A' sydd yn derbyn ymateb o fewn wyth munud ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*


## Nifer o ymatebion i achosion brys Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*




## Amser gyfartalog misol a gymerwyd (mewn eiliadau) o ddilysu galwad i ddyrannu ymateb brys i achosion Categori 'A'




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r ymddiriedolaeth ambiwlans*

# Atodiad 5 - Cyfres o adroddiadau a gaiff eu llunio gennym ar y system gofal heb ei drefnu

1 Mae Atodiad 5 yn rhestru'r adroddiadau y bwriadwn eu llunio ar agweddau penodol ar y system gofal heb ei drefnu.

| Modiwl | Prif gwestiwn | Dyddiad cyhoeddi amcangyfrifedig |
|---|---|---|
| Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai | A yw'r broses o drosglwyddo cleifion gan griwiau ambiwlans i adrannau achosion brys ysbytai yn cael ei rheoli'n effeithiol tra'n diogelu gofal cleifion? | Gwanwyn |
| Galw Iechyd Cymru | A yw Galw Iechyd Cymru yn rhan werthfawr o'r system gofal heb ei drefnu yng Nghymru? | Haf |
| Gwasanaethau y tu allan i oriau | A yw gwasanaethau y tu allan i oriau yn cyfrannu'n effeithiol at y system gofal heb ei drefnu? | Hydref |
| Modiwl systemau cyfan | A yw'r system gofal heb ei drefnu yng Nghymru yn gweithredu'n effeithiol o safbwynt y dinesydd? | Hydref |